4.7 Y trydydd opsiwn a ystyriwyd oedd sefyllfa o **dwf cymedrol**, sef y pwynt hanner ffordd rhwng yr opsiwn twf uchel a'r opsiwn twf isel. Byddai'r opsiwn hwn yn golygu gofyniad tai o 8,625 o unedau dros gyfnod y cynllun, neu 575 o anheddau'r flwyddyn. O ystyried lefel y mewnfudo a ystyriwyd yn rhesymol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â nifer o ystyriaethau polisi eraill gan gynnwys gallu amgylcheddol, daethpwyd i'r casgliad mai'r senario twf cymedrol oedd yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer y CDLl. Roedd hyn yn sail i'r gofyniad tir ar gyfer tai yn y Cynllun Mabwysiedig. Amcangyfrifwyd bod nifer yr aelwydydd yn 2006 yn 71,500. Yn seiliedig ar gynnydd o 8,625 o aelwydydd dros gyfnod y cynllun, rhagwelwyd y byddai nifer yr anheddau yn 2021 yn 80,100. Roedd y cynllun yn rhagdybio cymhareb o 1 aelwyd i 1 annedd.

4.8 Dylid nodi, er bod y CDLl Mabwysiedig yn cynllunio ar gyfer lefel gymedrol o dwf, gwnaed darpariaeth ar gyfer 10,269 o anheddau yn y CDLl i ganiatáu dewis a hyblygrwydd ac i gwrdd â'r ffigur dosraniad rhanbarthol pe bai lefel y twf a gyflawnwyd yn uwch.

Opsiwn	Poblogaeth	Aelwydydd 2006	Aelwydydd 2021	Gofynion Tai 2006-2021	Gofyniad Adeiladu Tai Blynyddol
Mudo Cytbwys	175,000	71,447	78,947	7,500	500
Twf Cymedrol	177,500	71,447	80,072	8,625	575
Twf Uchel	180,000	71,447	81,197	9,750	650

Table 4: ***Opsiynau twf a ystyriwyd yn y CDLI Mabwysiedig (2006-2021)***
Ffynhonnell: Wedi'i dynnu o CDLI BP6: Poblogaeth a Thai

4.9 Ers i'r senarios twf blaenorol gael eu paratoi, bu newid trawiadol yn y modd y caiff amcanestyniadau eu paratoi, yn ogystal â newid mewn polisi cynllunio cenedlaethol ar sut y dylid ystyried amcanestyniadau at ddibenion cynllunio. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd bellach yn cael eu paratoi ar lefel awdurdod lleol, ac, yn hytrach na phennu twf ar sail ranbarthol, mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi y dylai'r amcanestyniadau aelwydydd fod yn rhan o'r sail tystiolaeth ar gyfer asesu gofynion tai, er bod lle i wyro o'r amcanestyniadau hyn lle ceir tystiolaeth gefnogol.

Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd ers y CDLI mabwysiedig

4.10 Ers i gyfanswm y gofyniad tai ar gyfer y CDLI (2006-2021) gael ei gyfrifo, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pum cyfres o amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd ar lefel awdurdod lleol, gyda dyddiadau sylfaen o 2006, 2008, 2011, 2014 ac yn fwyaf diweddar 2018.

Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru

4.11 Dangosir y newid yn y boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili a nodwyd ym mhob un o'r amcanestyniadau hyn yn Ffigur 6.



Figure 6: ***Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdodau Lleol LIC***
Ffynhonnell: StatsCymru

4.12 Roedd amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2006, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008, yn nodi poblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili o 180,700 erbyn 2021, a oedd 3,200 yn uwch na'r ffigur poblogaeth a nodwyd yn y CDLl o 177,500. Roedd yr amcanestyniadau yn rhagdybio cyfradd fudo net o 136 o bobl y flwyddyn a ffigur newid naturiol amrywiol o rhwng 432 a 527. Fodd bynnag, fel y manylwyd yn y papur atodol a ddefnyddiwyd i lywio'r CDLl, mynegodd CBS Caerffili bryder bod yr amcanestyniadau yn sylweddol uwch na'r hyn yr oedi tueddiadau hir dymor yn awgrymu.

4.13 Roedd amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2006 (Mehefin 2009) yn rhagweld y byddai 83,800 o aelwydydd erbyn 2021, sef cynnydd o 12,300 o aelwydydd dros gyfnod y cynllun, o'i gymharu â'r 8,625 o aelwydydd/anheddau y gwnaeth y CDLl ddarpariaeth ar eu cyfer.

4.14 Dangosodd yr amcanestyniadau poblogaeth seiliedig ar 2008 (Mai 2010), a ddisodlodd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2006, lefel poblogaeth o 179,100 erbyn 2021. Roedd yr amcanestyniadau yn rhagdybio ffigur cyson ar gyfer mudo net o 54 o bobl y flwyddyn a ffigur newid naturiol amrywiol o rhwng 430 a 490 o bobl y flwyddyn.

4.15 Roedd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2011 (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013) yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2011, sef yr amcangyfrifon poblogaeth cyntaf i gael eu seilio ar Gyfrifiad 2011. Roedd y rhain hefyd yn ymgorffori'r amcangyfrifon poblogaeth a mudo diwygiedig ar gyfer canol 2002 i ganol 2010 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ym mis Ebrill 2013 yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2011.

4.16 Yn y cyfnod hyd at 2035 (dyddiad diwedd cyfnod yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd) amcanestynwyd y byddai'r boblogaeth yn cynyddu 3,800 i 182,575 . Roedd yr amcanestyniadau yn rhagdybio ffigur cyson ar gyfer mudo net o -29 y flwyddyn, a olygai bod disgwyl i fwy o bobl symud allan o'r Fwrdeistref Sirol na symud i mewn. Amcanestynwyd y byddai newid naturiol yn gadarnhaol tan 2027/28, cyn yr amcanestynwyd y byddai nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau. Yn gyffredinol, amcanestynwyd y byddai'r boblogaeth yn cynyddu tan 2026/27, cyn gostwng wedi hynny.

4.17 Nid oedd y gostyngiad a amcanestynwyd yn y boblogaeth yn unigryw i Fwrdeistref Sirol Caerffili, ac amcanestynwyd y byddai awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yn dilyn patrymau tebyg. Roedd gan Lywodraeth Cymru bryderon ynghylch goblygiadau hyn ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu, ac ysgrifennodd y Gweinidog Tai ac Adfywio at ALlau ym mis Ebrill 2014 i egluro bod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, yr effeithiwyd arnynt yn sylweddol gan amodau economaidd y gorffennol o ganlyniad i'r argyfwng economaidd. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddefnyddio'r amcanestyniadau at ddibenion cynllunio. Roedd y llythyr yn cynnwys y datganiad bod yn rhaid i ACLlau *"geisio darparu ar gyfer lefel y tai sydd eu hangen o ganlyniad i ddadansoddi'r holl ffynonellau tystiolaeth perthnasol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru."* Croesawyd y llythyr hwn gan y Cyngor gan fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais sylweddol cyn hyn ar gyflawni'r amcanestyniadau, yn hytrach na chydnabod eu bod yn rhan o'r sail tystiolaeth, a bod lefel y twf yn benderfyniad polisi i bob awdurdod lleol ei wneud.

4.18 Cyhoeddwyd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 ym mis Medi 2016, yn cwmpasu'r cyfnod 25 mlynedd 2014-2039. Os ystyrir y cyfnod hyd at ddyddiad diwedd yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd (2035), amcanestynwyd y byddai'r boblogaeth yn cynyddu 2,700. Fodd bynnag, fel yn achos amcanestyniadau 2011, amcanestynwyd y byddai'r boblogaeth yn cynyddu'n araf rhwng 2014 a 2030, cyn dechrau gostwng dros weddill cyfnod yr amcanestyniad. Roedd yr amcanestyniadau hyn yn rhagdybio ffigur mudo net cyson o -110. Amcanestynwyd y byddai newid naturiol yn gadarnhaol tan 2035, gyda mwy o enedigaethau na marwolaethau, ond gostyngodd lefel y cynnydd yn y boblogaeth oherwydd newid naturiol yn sylweddol dros gyfnod yr amcanestyniad.

4.18 Trafodir amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn fanylach ym Mhennod 5. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Ffigur 6, rhagwelir y bydd cynnydd bychan ond cyson yn y boblogaeth drwy gydol cyfnod yr amcanestyniad, gyda chynnydd o 2,450 o bobl yn y boblogaeth yn y cyfnod 2018-2035. Mae hyn yn wahanol i'r amcanestyniadau blaenorol, sy'n dangos bod y boblogaeth yn gostwng hanner ffordd trwy gyfnod yr amcanestyniad.

Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru

4.19 Mae Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar Ragolygon Aelwydydd Awdurdodau Lleol. Gwelir yn Ffigur 7 bod yr amcanestyniadau seiliedig ar 2006 a 2008 yn rhagweld cyfradd sylweddol uwch o dwf aelwydydd na'r cyfresi o amcanestyniadau a baratowyd ers rhyddhau Cyfrifiad 2011. Mae hyn yn rhannol oherwydd y cyfraddau uwch o dwf yn y boblogaeth a ragwelir yn yr amcanestyniadau hyn.



Figure 7: ***Prif Amcanestyniadau Awdurdodau Lleol LIC***
Ffynhonnell: StatsCymru

4.20 Mae amcanestyniadau aelwydydd ALlau seiliedig ar 2011, 2014 a 2018 yn dilyn trywydd tebyg o lefel isel o dwf aelwydydd dros gyfnod yr amcanestyniad. Mae amcanestyniadau seiliedig ar 2011 yn rhagweld ffigur aelwydydd o 2035 o 80,200. Mae hyn ychydig yn is yn yr amcanestyniadau seiliedig ar 2014 (79,900) ac yn is eto yn yr amcanestyniad seiliedig ar 2018 (79,700).

4.21 Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf ar gyfer yr amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2018 yn cynnwys cymhariaeth rhwng amcanestyniadau seiliedig ar 2014 a 2018 ar gyfer y flwyddyn 2028, sy'n dangos bod amcanestyniadau Caerffili seiliedig ar 2018 -0.5% yn is na'r rhai a gynhyrchwyd yn 2014, sy'n weddol debyg i'r gwahaniaeth ar lefel Cymru -0.2%. Mae hyn yn cyferbynnu ag awdurdodau lleol eraill, sydd wedi profi amrywiadau sylweddol rhwng y ddwy gyfres o amcanestyniadau o amcanestyniadau aelwydydd 2018, sef 7.2% yn uwch ym Mro Morgannwg i 9.7% yn is yng Ngheredigion.

4.22 Mae maint cyfartalog aelwydydd (MCA), wedi'i fesur yn nhermau personau ym mhob aelwyd, yn cael ei gyfrifo drwy rannu'r boblogaeth aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd. Mae Ffigur 8 yn nodi'r gwahaniaethau rhwng yr amcanestyniadau. Dechreuodd

amcanestyniadau seiliedig ar 2006 a 2008 gydag MCA is o ddyddiad sylfaen yr amcanestyniadau a amcanestynwyd y byddai'r MCA yn gostwng yn gyflym dros gyfnod yr amcanestyniad, yn dilyn y tueddiadau a brofwyd yng nghyfnod cyfrifiad 1991-2001. Nododd cyfrifiad 2011 bod maint cyfartalog aelwydydd yng Nghaerffili yn llawer uwch na hyn mewn gwirionedd, felly mae setiau dilynol o amcanestyniadau ers 2011 yn nodi MCA mwy ar y dechrau. Mae'r cyfraddau newid dros gyfnodau amcanestyniadau 2011, 2014 a 2018 yn is, ond mae pob un yn dilyn trywydd tebyg, ac yn adlewyrchu'r tueddiadau a ddangoswyd mewn amcangyfrifon aelwydydd diweddar.



Figure 8: ***Amcanestyniadau Aelwydydd ALI LIC Maint Cyfartalog Aelwydydd Ffynhonnell: StatsCymru***

Cyfrifiad 2011 ac Amcangyfrif Canol Blwyddyn

4.23 Darparodd rhyddhau data Cyfrifiad 2011 dystiolaeth o dueddiadau demograffig, sy'n hollbwysig wrth ystyried opsiynau twf. Nododd Cyfrifiad 2011 boblogaeth o 178,806 ar gyfer Caerffili. Roedd y ffigur hwn yn sylweddol uwch na'r hyn a ragwelwyd yn y CDLl mabwysiedig, a nododd boblogaeth o 173,400 yn 2011. Roedd hefyd yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif canol blwyddyn blaenorol ac amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011 yn amcanestyniadau poblogaeth 2006 a 2008.

4.24 Mae'r amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn ar gyfer 2002-2010 ar gyfer Cymru wedi'u diwygio i ystyried canlyniadau Cyfrifiad 2011, ac yn achos Caerffili, mae'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ar gyfer pob blwyddyn wedi'i ddiwygio i fyny, fel y dangosir yn y tabl isod.

Blwyddyn	Amcangyfrif Canol Blwyddyn Blaenorol	Amcangyfrif Canol Blwyddyn Newydd	Gwahaniaeth
2001	169,546	169,546	0
2002	170,228	170,776	548
2003	170,325	171,363	1,038
2004	170,823	172,361	1,538
2005	170,743	172,777	2,034
2006	171,132	173,741	2,609
2007	171,751	174,987	3,236
2008	172,363	176,259	3,896
2009	172,737	177,159	4,422
2010	173,124	178,101	4,977
2011		178,782	

Table 5: ***Cydrannau Newidiadau Diwygiedig rhwng amcangyfrifon canol blwyddyn blaenorol 2001 a 2011***
Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

4.25 Er bod y cydrannau newid naturiol a mudo wedi'u diwygio ychydig, nid yw'r prif resymau dros y gwahaniaethau rhwng yr amcangyfrif canol blwyddyn blaenorol a'r rhai diwygiedig yn hysbys ac felly maent wedi'u dosbarthu fel 'arall (na ellir eu priodoli)'. Mae gan Gaerffili'r ail ffigur uchaf ar gyfer cydrannau newid 'na ellir eu priodoli' yng Nghymru gyda thua 5,000 o bobl na ellir eu priodoli i newid naturiol, mudo mewnol neu ryngwladol neu gydrannau eraill fel ceiswyr lloches, carcharorion, a'r lluoedd arfog.

4.26 Nid oes unrhyw fanylion pellach ar sut y daethpwyd i'r ffigur 'na ellir eu priodoli' ar gyfer Bwrdeistref Sirol Caerffili, ond mae canllawiau'r SYG[2] yn nodi y gallai hyn fod oherwydd cyfuniad o anghywirdebau posibl yn:

- Mudo mewnol, yn enwedig oherwydd problemau wrth amcangyfrif symudiadau penodol yn gywir, megis pobl ifanc yn gorffen cyrsiau addysg bellach.
- Mudo rhyngwladol, oherwydd gwahanol ddulliau o gyfrifo mewnfudo
- Amcangyfrifon poblogaeth 2001, a oedd yn seiliedig ar gyfrifiad 2001
- Amcangyfrifon Cyfrifiad 2011, fel amcangyfrif roedd angen ei wneud ar gyfer nifer y bobl nad oedd wedi ymddangos ar ffurflen Cyfrifiad.
- Diffiniadau o garcharorion, sydd wedi'u newid yn ddiweddar.

4.27 O ystyried na ellir egluro'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn uwch diwygiedig yn llawn, mae angen bod yn ofalus wrth wneud tybiaethau yn seiliedig ar dwf poblogaeth blynyddol yn y 10 mlynedd diwethaf. Mae'n ddigon posibl bod ffigurau poblogaeth 2001 yn y Cyfrifiad wedi'u tanamcangyfrif, sy'n golygu bod y boblogaeth mewn gwirionedd wedi cynyddu ar lefel uwch yn y cyfnod 1991-2001 na 2001-2011.

4.28 Wrth asesu effaith newid na ellir ei briodoli, cydnabyddir, wrth baratoi amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd mewn mannau eraill, y rhagdybiwyd bod y ffigur 'na ellir eu priodoli' hwn o leiaf yn rhannol oherwydd mudo rhyngwladol a'i fod wedi'i gynnwys o fewn tybiaethau mudo. Fodd bynnag, o ystyried bod tybiaethau mudo eisoes wedi'u diwygio yn yr Adroddiadau Crynswth (Amcangyfrif Canol Blwyddyn), ac yng ngoleuni cyngor gan y

[2]Swyddfa Ystadegau Gwladol - Dulliau a ddefnyddiwyd i adolygu'r amcangyfrifon poblogaeth is-genedlaethol ar gyfer canol 2002 i ganol 2010 (30 Ebrill 2013)

Swyddfa Ystadegau Gwladol mewn perthynas â darpariaeth tai yn Lloegr, y dull a ffefrir yw eithrio'r ffigur 'na ellir eu priodoli' o dueddiadau mudo.

4.29 Gwnaed adolygiad pellach ym mis Mawrth 2018 i'r Amcangyfrifon Canol Blwyddyn rhwng canol 2012 a chanol 2016 yng ngoleuni gwelliannau methodolegol. Arweiniodd hyn at fân newidiadau i'r ffigurau ymfudo rhyngwladol, o rhwng -17 a 4 person y flwyddyn. Yn gyffredinol, bu gostyngiad o 29 o bobl yn yr amcangyfrifon dros y cyfnod hwn. Mae'r amcangyfrifon diwygiedig wedi'u cynnwys gydag Adran 3 o'r Papur hwn.

Cyfrifiad 2021

4.30 Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 ar 21 Mawrth 2021. Mae'r SYG wedi cyhoeddi amserlen ddangosol ar gyfer rhyddhau canlyniadau'r Cyfrifiad a rhagwelir y bydd amcangyfrifon awdurdodau lleol yn cael eu cyhoeddi yn haf 2022, gyda gweddill canlyniadau data'r cyfrifiad yn cael eu cyhoeddi erbyn mis Mawrth 2023.

4.31 Yn dilyn cyhoeddi data'r Cyfrifiad, os gwelir gwahaniaethau sylweddol rhwng cyfrif y Cyfrifiad a'r Amcangyfrif Canol Blwyddyn, efallai y bydd angen i'r SYG adolygu'r amcangyfrifon canol blwyddyn blaenorol.

4.32 Rhoddir ystyriaeth i unrhyw ddata Cyfrifiad a gyhoeddir maes o law. Fodd bynnag, dylid nodi mai dim ond ciplun o'r boblogaeth ar adeg benodol yw'r Cyfrifiad ac nid yw'n cynrychioli rhagolwg o dwf poblogaeth yn y dyfodol. Er bod amcangyfrifon poblogaeth yn rhan o'r sail tystiolaeth, mae'r senarios twf yn ystyried amrediad o dystiolaeth gan gynnwys tueddiadau hirdymor genedigaethau, marwolaethau, mudo mewnol a rhyngwladol, a sut y gall polisi ddylanwadu ar y tueddiadau hyn.

5. Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Seiliedig ar 2018

5.1 Mae'r amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn rhoi amcangyfrifon o faint poblogaeth y dyfodol ar gyfer awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol Cymru. Maent yn amcanestyniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau, gan ddefnyddio tybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd yn arwain at y flwyddyn ar ddechrau'r amcanestyniad (y flwyddyn sylfaen). Nid rhagolygon yw amcanestyniadau poblogaeth ac nid ydynt yn ceisio rhagweld yr effaith y gallai polisïau'r llywodraeth yn y dyfodol, amgylchiadau economaidd newidiol neu ffactorau eraill (er enghraifft, polisïau'r llywodraeth ar fewnfudo, goblygiadau Brexit neu COVID 19) ei chael ar ymddygiad demograffig.

5.2 Cyhoeddwyd amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd seiliedig ar 2018 diwygiedig ar 4 Awst 2020, ar ôl cael eu cyhoeddi'n wreiddiol ym mis Chwefror 2020 ac yna eu tynnu'n ôl oherwydd gwall oedd yn effeithio ar yr amcanestyniadau cenedlaethol seiliedig ar 2018. Mae'r amcanestyniadau yn cwmpasu'r cyfnod o 25 mlynedd rhwng 2018 a 2043.

5.3 Mae'r 'prif' amcanestyniad poblogaeth yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol o ran ffrwythlondeb, marwoldeb, a mudo o'r 5 mlynedd flaenorol. Mae amcanestyniadau amrywiadol hefyd wedi'u cyhoeddi, gan gynnwys amrywiad 'poblogaeth uchel' (yn seiliedig ar dybiaethau ffrwythlondeb uchel, disgwyliad oes a mudo), ac amrywiad 'poblogaeth isel' (yn seiliedig ar dybiaethau ffrwythlondeb, disgwyliad oes a mudo isel). Mae tybiaethau ar sail mudo gan gynnwys mudo sero (h.y. dim mudo rhyngwladol neu fewnol, newid naturiol yn unig yn y boblogaeth o ganlyniad i enedigaethau a marwolaethau), ac amrywiad yn seiliedig ar batrymau mudo 10 mlynedd (h.y. defnyddio 10 mlynedd o ddata ar gyfer rhyngwladol a marwolaethau), mudo mewnol, yn hytrach na 5 mlynedd o ddata) hefyd ar gael.

5.4 Roedd yr amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn defnyddio methodoleg wahanol i'r amcanestyniadau blaenorol, oherwydd canlyniadau annhebygol mewn perthynas ag allfudo rhai carfannau oedran mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cymhwyswyd cyfraddau mudo i'r tybiaethau mudo mewnol. Ar gyfer mewnfudo mewnol, cyfrifwyd hyn fel cyfradd o gymharu â gweddill poblogaeth y DU. Ar gyfer allfudo mewnol, cyfrifwyd hyn fel cyfradd o'i gymharu â phoblogaeth breswyl yr awdurdod lleol. Mae'r newidiadau hyn yn golygu nad yw mewnfudo ac allfudo mewnol bellach yn gyson a byddant yn dibynnu ar faint a strwythur oed poblogaeth yr awdurdod lleol o'i gymharu â gweddill y DU. Mae'r tybiaethau mudo rhyngwladol yn parhau i fod yn ffigur cyson.

Poblogaeth

5.5 Mae Prif Amcanestyniadau Poblogaeth ALlau seiliedig ar 2018 yn nodi poblogaeth sylfaenol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol ar ddechrau cyfnod yr amcanestyniad o 181,019. Yng nghyfnod Cynllun y CDLl 2020-2035, nodir y rhagwelir twf o 1,881 yn unig yn y boblogaeth.

Poblogaeth 2018	Poblogaeth 2020	Poblogaeth 2035	Amcanestyniad o Newid Poblogaeth 2020-2035	% Newid Poblogaeth 2020-2035
181,019	181,585	183,466	1,881	1%

Table 6: ***Amcanestyniad o newid yn y boblogaeth 2020-2035***

5.6 Mae graff sy'n dangos amcanestyniadau poblogaeth 2018 yng nghyd-destun poblogaethau diweddar eraill LIC wedi'i gynnwys yn Adran 4. Mae hyn yn dangos bod y gyfradd twf a ragwelir yn arafach na thueddiadau'r gorffennol.

Aelwydydd

5.7 Mae Tabl 8 yn dangos y mathau o aelwydydd fel y'u nodwyd yn yr amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2018 ar gyfer dyddiadau dechrau a gorffen cyfnod y cynllun yn 2020 a 2035, ynghyd â'r newid canrannol ar gyfer pob math o aelwyd ar gyfer Caerffili, De-ddwyrain Cymru a Chymru gyfan. Mewn termau rhifiadol, rhagwelir mai aelwydydd llai fydd yn gweld y twf mwyaf dros gyfnod yr amcanestyniad yng Nghaerffili. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrymau ar gyfer De-ddwyrain Cymru a Chymru gyfan.

5.8 Yn gyffredinol, aelwydydd 1 person fydd yn profi'r twf mwyaf, sef cynnydd o 1,838 dros gyfnod y cynllun. Fodd bynnag, mewn termau canrannol, dim ond 8.4% yw twf aelwydydd 1 person o'i gymharu â 16.1% yn Ne-ddwyrain Cymru a 13.1% yng Nghymru. Rhagwelir y bydd aelwydydd dau berson yn profi twf sylweddol, yn enwedig aelwydydd un rhiant (1 oedolyn, 1 plentyn). Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r patrymau tebyg ar draws y rhanbarth a Chymru yn gyffredinol.

5.9 Rhagwelir y bydd gostyngiad yng Nghaerffili ym mhob math o aelwydydd 3 person a 4 person, ac eithrio aelwydydd 4 person (dim plant). Er bod y patrwm hwn yn adlewyrchu patrymau rhanbarthol a chenedlaethol yn fras, mae'r newid canrannol yn fwy arwyddocaol yng Nghaerffili.

5.10 Rhagwelir y bydd cynnydd mewn rhai mathau o eiddo mwy – 5 person (1 oedolyn, 4+ o blant), 5+ person (dim plant) a 4 person (dim plant). Fodd bynnag, mae niferoedd sylfaenol y mathau hyn o aelwydydd yn is, sy'n golygu y byddai cynnydd bach yn y niferoedd yn cynrychioli cynnydd canrannol mwy. Gall y cynnydd trawiadol mewn aelwydydd mwy heb blant fod oherwydd nifer o ffactorau e.e. plant nad ydynt yn ddibynnol yn parhau i fyw gartref i fynychu cyrsiau addysg uwch neu oherwydd na allant fforddio symud i'w llety eu hunain, neu gallai awgrymu tuedd i henoed fyw gyda'u plant i dderbyn gofal. Mae'r patrwm hwn hefyd yn adlewyrchu'r patrwm ar draws y rhanbarth a Chymru yn gyffredinol.

5.11 Y twf cyfrannol is mewn aelwydydd un person yng Nghaerffili o'i gymharu â'r rhanbarth yw'r prif ffactor yn y ffigur amcanestyniad aelwydydd isel a maint cyfartalog aelwydydd uchel a bydd yn briodol ystyried beth fyddai'r effaith ar dwf aelwydydd pe bai'r newid yn y math o aelwydydd yng Nghaerffili yn fwy unol â phatrymau rhanbarthol.

	Caerffili	Caerffili	Caerffili	Caerffili	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	Cymru	Cymru	Cymru	Cymru
	2020	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 - 2035**	**2020**	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 - 2035**	**2020**	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 i 2035**
Pob Math	77204	79665	2461	3.2	662565	711496	48931	7.4	1,371,134	1,452,447	81313	5.9
1 person	21832	23670	1838	8.4	210271	244161	33890	16.1	442,897	500,737	57840	13.1
2 berson (1 oedolyn, 1 plentyn)	3872	4607	735	19.0	28824	33780	4956	17.2	55,523	65,267	9744	17.5
2 berson (Dim plant)	24168	24965	797	3.3	197546	206400	8854	4.5	427,722	446,478	18757	4.4
3 person (1 oedolyn, 2 blentyn)	1588	1475	-113	-7.1	13151	12578	-573	-4.4	25,394	24,442	-952	-3.7
3 person (2 oedolyn, 1 plentyn)	5525	5278	-247	-4.5	44442	44844	402	0.9	85,612	84,179	-1433	-1.7
3 person (Dim plant)	5856	5729	-127	-2.2	46273	46494	221	0.5	91,325	89,145	-2181	-2.4
4 person (1 oedolyn, 3 o blant)	562	509	-53	-9.4	4918	4852	-66	-1.3	9,303	9,255	-48	-0.5
4 person (2+ oedolyn, 1+ o blant)	7422	6904	-518	-7.0	60132	58484	-1648	-2.7	120,287	116,189	-4097	-3.4
4 person (Dim plant)	2014	2330	316	15.7	17536	20530	2994	17.1	33,415	37,400	3985	11.9

	Caerffili	Caerffili	Caerffili	Caerffili	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	De-ddwyrain Cymru	Cymru	Cymru	Cymru	Cymru
	2020	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 - 2035**	**2020**	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 - 2035**	**2020**	**2035**	**Newid 2020 - 2035**	**% Newid 2020 i 2035**
5+ person (1 oedolyn, 4+ o blant)	299	371	72	24.1	1896	1810	-86	-4.5	3,574	3,605	31	0.9
5+ person (2+ oedolyn, 1+ o blant)	3712	3379	-333	-9.0	31811	29947	-1864	-5.9	64,687	60,969	-3718	-5.7
5+ person (Dim plant)	355	448	93	26.2	5767	7616	1849	32.1	11,396	14,781	3385	29.7

Table 7: ***Canran y newid yn ôl math o aelwyd***
Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2018

6. Dadansoddiad o Gydrannau Newid Poblogaeth a Chartrefi

6.1 Elfennau allweddol newid yn y boblogaeth yw nifer y genedigaethau a marwolaethau (cyfeirir at y gwahaniaeth rhwng y rhain fel newid naturiol) a mudo (mewnol – o'r DU, a rhyngwladol – o'r tu allan i'r DU). Mae'r adran ganlynol yn archwilio'r cydrannau hyn yn fanylach, gan ystyried tueddiadau'r gorffennol.

6.2 Mae gwybodaeth ar gael am gydrannau newid yn y boblogaeth yn yr Amcangyfrifon Canol Blwyddyn. Fel yr eglurwyd yn flaenorol, roedd y newid poblogaeth blynyddol mwyaf yn y cyfnod 2001 i 2011, er bod cyfran sylweddol o'r twf hwn yn 'newid poblogaeth na ellir ei briodoli' oherwydd diwygiadau i'r amcangyfrifon yn dilyn cyhoeddi Cyfrifiad 2011 na ellir eu priodoli i newid naturiol neu fudo. Esbonnir hyn yn fanylach yn Adran 4.

6.3 Nodir o Ffigur 9 bod newid naturiol a mudo mewnol net yn gadarnhaol yn ystod pedair blynedd gyntaf y cyfnod hwn, tra bod mudo rhyngwladol net yn negyddol. Yn ystod y 3 blynedd dilynol, tyfodd y boblogaeth yn bennaf trwy fudo mewnol net, gydag elfen lai o newid naturiol a mudo rhyngwladol net. Yn y cyfnod ers 2008/9 i 2012/13, roedd mudo mewnol net yn negyddol (mwy o drigolion y DU yn symud allan o Gaerffili nag i mewn), a chafodd twf ei briodoli'n bennaf i newid naturiol. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ffigurau wedi bod yn fwy amrywiol. Mae newid naturiol wedi bod yn gadarnhaol, ond mae'r cyfraniad y mae wedi'i wneud i dwf cyffredinol y boblogaeth wedi bod yn llai, gyda chynnydd mewn marwolaethau a nifer is o enedigaethau. Dangosodd Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2020 newid naturiol negyddol yng Nghaerffili am y tro cyntaf yn y degawdau diwethaf, gan fod nifer y genedigaethau wedi parhau i ostwng a chyfraddau marwolaeth wedi bod yn uwch na'r lefelau blaenorol, er bod hyn yn rhannol oherwydd pandemig Covid-19. Mae mudo mewnol net wedi bod yn amrywiol, yn amrywio o ffigur net o -146 yn 2015/16 i 867 yn 2019/20. Ers 2012/13, mae mudo rhyngwladol wedi bod yn gadarnhaol rhwng 3 ac 86 y flwyddyn.



Figure 9: ***Cydrannau Newid Poblogaeth yng Nghaerffili 2001 i 2020***
Ffynhonnell: StatsCymru

Genedigaethau

6.4 Ceir data ar nifer y genedigaethau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Fel y gwelir o Ffigur 10, mae nifer y genedigaethau wedi amrywio, ond bu tuedd gyffredinol tuag i lawr ers 1991, yn unol â thueddiadau cenedlaethol sydd wedi nodi gostyngiad mewn cyfraddau ffrwythlondeb. Roedd nifer y genedigaethau yn gyson rhwng 2,150 a 2,200 rhwng 2006/7 a 2010/11 ond ers 2011 maent wedi gostwng ac yn 2019/20 roeddent ar y ffigur isaf a gofnodwyd o lai na 1,750.



Figure 10: ***Genedigaethau a Marwolaethau y Gorffennol ac Amcanestyniadau 1991 i 2035***
Ffynhonnell: StatsCymru

6.5 Nid yw'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn cynnwys ffigurau 2018/19 na 2019/20 ond maent yn seiliedig ar y tueddiadau 5 mlynedd cyn 2018. Rhagwelir y bydd cyfraddau genedigaethau yn parhau i ostwng yn araf dros gyfnod yr amcanestyniad i'r lefel isaf o 1,862 cyn sefydlogi a chynyddu ychydig dros weddill cyfnod yr amcanestyniad.

6.6 Fel ffordd o feincnodi'r amcanestyniadau yn erbyn tueddiadau hirdymor, mae'r nifer amcangyfrifiad cyfartalog o enedigaethau dros y cyfnod 1991/2 – 2019/20 wedi'i gyfrifo fel 2,100 o enedigaethau y flwyddyn. Os ystyrir y 10 mlynedd blaenorol (2010/11 - 2019/20), yna amcangyfrifir bod nifer y genedigaethau yn 2,000 y flwyddyn. Dros y pum mlynedd diwethaf hyd at 2019/20, mae nifer cyfartalog y genedigaethau wedi gostwng ymhellach fyth i 1,900. Mae nifer y genedigaethau y flwyddyn yn yr amcanestyniadau yn amrywio, ond dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd 2020 – 2035, mae'r nifer yn 1,889 y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd hirdymor ond mae'n adlewyrchu tueddiadau mwy diweddar yn well.

6.7 Mae cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb (nifer cyfartalog y plant sydd i'w geni i fenyw yn ystod ei hoes) dros yr amcanestyniad yn cynyddu ychydig dros gyfnod y cynllun o 1.70 yn

2018 i 1.79 yn 2035. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod yn is na'r ffrwythlondeb lefel adnewyddu o 2.1 plant i bob menyw. Fel y gwelir yn Ffigur 11, mae demograffeg y Fwrdeistref Sirol wedi newid ers 2001, gyda llai o fenywod rhwng 30 a 45 oed yn 2018 nag yn 2011, er bod mwy o fenywod 20-30 oed. Mae data'r SYG yn nodi mai oed cyfartalog mam yng Nghymru a Lloegr yn 2019 oedd 30.7 ac felly mae'r gostyngiad yn nifer y menywod hŷn sy'n cael plant yn 2018 o'i gymharu â 2001 yn ffactor sy'n egluro'r gostyngiad yn nifer y genedigaethau.

6.8



Figure 11: ***Cymharu strwythur poblogaeth 2001 a 2018***
Ffynhonnell: Popgroup

Marwolaethau

6.9 Mae'r gyfradd marwolaethau ym Mwrdeistref Sirol Caerffili hefyd wedi bod yn amrywiol. Roedd yn gymharol sefydlog ar ddiwedd y 1990au rhwng tua 1,900 i 1,950 o farwolaethau'r flwyddyn, cyn disgyn i'r lefel isaf o lai na 1,700 o farwolaethau yng nghanol y 2000au. Mae'r duedd ar gyfer nifer y marwolaethau wedi cynyddu ers hynny, sy'n ganlyniad i strwythur demograffig y Fwrdeistref Sirol gyda phoblogaeth gynyddol o bobl hŷn.

6.10 Rhagwelir y bydd nifer y marwolaethau yn parhau i gynyddu'n araf dros gyfnod cynllun y CDLl. Nodir, yn 2018-19, bod nifer y marwolaethau bron yn gyfartal â nifer y genedigaethau, gyda ffigur newid naturiol o ddim ond 5, ac yn 2019-20 roedd nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau o 257, sy'n gyfuniad o'r nifer isaf o enedigaethau yn y degawdau diwethaf a'r nifer uchaf o farwolaethau, yn rhannol oherwydd y marwolaethau cysylltiedig â Covid-19 yn rhan gynnar y pandemig. Mae amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn nodi y rhagwelir y bydd newid naturiol yn negyddol (h.y. bydd mwy o farwolaethau na genedigaethau) yn 2021/22, a bydd hyn yn parhau drwy gydol cyfnod y cynllun. Erbyn 2035, rhagwelir y bydd 288 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau.

6.11 Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigurau a ddangosir yn Ffigur 10 yn cynnwys yr holl farwolaethau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID-19 gan fod yr amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf ar gyfer 2020 ond yn cynnwys marwolaethau yn y cyfnod hyd at 30

Mehefin 2020. Mae marwolaethau a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad hwn, gan gynnwys y rhai a ddigwyddodd mewn tonnau dilynol o'r pandemig, sy'n cael eu cofnodi yn Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2021 a 2022 (yr 'ail don'), yn cael eu hadlewyrchu yn Amcangyfrif Canol Blwyddyn 2021.

6.12 Dylid ystyried yr amcanestyniadau yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor. Nifer cyfartalog y marwolaethau yn flynyddol ers 1991 yw 1,810 o bobl y flwyddyn. Mae'r cyfartaledd dros y 10 mlynedd diwethaf wedi gostwng i 1,800 y flwyddyn, ond os yw data o'r 5 mlynedd diwethaf yn unig yn cael ei ystyried, mae nifer y marwolaethau wedi bod yn 1,850 o bobl y flwyddyn.

6.13 Gellir esbonio'r cynnydd hirdymor yn nifer y marwolaethau gan y newid clir mewn demograffeg, fel y dangosir yn Ffigur 11. Mae nifer y dynion a menywod ym mhob grŵp oedran o 45 oed a hŷn yn fwy yn 2018 nag yr oedd yn 2001, ac eithrio menywod 80 oed. Gan fod yna boblogaeth hŷn, mae'n anochel y bydd nifer y marwolaethau'n cynyddu. Bydd y boblogaeth hon sy'n heneiddio yn parhau i gynyddu dros gyfnod yr amcanestyniad, gan egluro'r cynnydd mewn marwolaethau a ragwelir dros gyfnod yr amcanestyniad.

Mudo

6.14 Mae mudo net (y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n symud i mewn ac allan o ardal) yn fwy amrywiol na newid naturiol ac mae'n anodd ei fesur. O ganlyniad, mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i'r tueddiadau mudo hirdymor a thymor byr. Mae newid naturiol i raddau helaeth y tu allan i reolaeth y system gynllunio, ond gall mudo gael ei ddylanwadu'n sylweddol gan benderfyniadau polisi ar lefel genedlaethol (e.e. Brexit) neu oherwydd ffactorau lleol megis argaeledd a fforddiadwyedd tai, neu leoliad cyflogaeth.

6.15 Mae Ffigur 9 yn nodi'r effaith ar newid yn y boblogaeth o ganlyniad i fudo, lle nodir bod y mudo mewnol a rhyngwladol wedi bod yn amrywiol yn y cyfnod ers 2001. Dangosir hyn hefyd yn Nhabl 9. Mudo net mewnol (trigolion y DU) y flwyddyn wedi amrywio o fewnfudo net o 623 o bobl y flwyddyn o'r DU, i allfudo net o 345 o bobl. Roedd mudo mewnol net i Gaerffili yn gadarnhaol ar y cyfan yn gynnar i ganol y 2000au. Fodd bynnag, yn dilyn y cyfnod o ddirwasgiad ar ôl argyfwng economaidd 2008 cafwyd patrwm o allfudo o drigolion y DU o'r Fwrdeistref Sirol, a oed yn rhannol gysylltiedig â chyfraddau adeiladu tai isel yn ystod y cyfnod hwn. Mae mudo mewnol net wedi parhau i fod yn amrywiol ers hynny, er ei fod wedi bod yn gadarnhaol dros y tair blynedd diwethaf.

6.16 Mae Ffigur 12 yn dangos gwreiddiau mudwyr mewnol sydd wedi symud i Gaerffili dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r ffigur net yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n symud o'r gyrchfan i Gaerffili a'r nifer sy'n symud o Gaerffili i'r gyrchfan honno ar gyfartaledd dros y 5 mlynedd diwethaf. Nodir bod y mewnlifiad mudo net uchaf wedi bod o Gaerdydd gyda chyfartaledd o 301 o bobl y flwyddyn. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r unig leoliad arall yn ne-ddwyrain Cymru sydd yn y 5 uchaf.

6.17 Daw cyfanswm o dri lle allan o'r pump uchaf o Loegr – Bryste, De Swydd Gaerloyw, a Gogledd Gwlad yr Haf. Efallai y caiff hyn ei esbonio'n rhannol gan ddileu tollau Pont Hafren yn 2018, sydd wedi agor coridor yr M4 yn Ne-ddwyrain Cymru i fod yn rhan o farchnad dai ehangach ar gyfer ardal ehangach Bryste, gan ei fod yn ddewis amgen fforddiadwy.



Figure 12: ***Mewnlif net cyfartalog dros y 5 mlynedd diwethaf***
Ffynhonnell: SYG – data mudo mewnol a chyrchfan

6.18 Mae data SYG hefyd ar gael ar yr all-lif net o Gaerffili h.y. lle mae mwy o bobl o Gaerffili wedi symud i gyrchfan arall nag sydd wedi symud o gyrchfan arall i Gaerffili. Nodir bod pob un o'r pum prif gyrchfan yng Nghymru a 3 ohonynt yn awdurdodau lleol cyfagos – Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.



Figure 13: ***All-lifau net cyfartalog dros y 5 mlynedd diwethaf***
Ffynhonnell: SYG – data mudo mewnol a chyrchfan

6.19 Mae data hefyd ar gael ar fudo net fesul grŵp oedran pum mlynedd ar gyfer y cyfnod 9 mlynedd 2012-2020 (Ffigur 14). Mae'r data hwn yn dangos bod allfudo net sylweddol o bobl ifanc 15-19 oed wrth i bobl ifanc symud allan o'r Fwrdeistref Sirol ar gyfer addysg uwch neu gyflogaeth. Mae mewnlif sylweddol yn y grwpiau oedran 20-24, a all fod yn gysylltiedig â rhai o'r bobl hynny a oedd wedi gadael yr ardal ar gyfer addysg uwch yn dychwelyd i Gaerffili. Mae gan y grwpiau oedran 25-39 hefyd fewnlif cadarnhaol ar gyfartaledd, a bu cynnydd cadarnhaol hefyd yn y grŵp oedran 0-4. Mae hyn yn dynodi llif o deuluoedd gyda phlant ifanc yn symud i'r Fwrdeistref Sirol o ardaloedd eraill. Nid oes llawer o newid oherwydd mudo mewnol net ar gyfer y boblogaeth o 40-44 i 70-74, gyda chynnydd net bychan yn unig o bobl yn y grwpiau oedran hyn yn symud i'r ardal. Mae gostyngiad bychan

yn y grwpiau oedran hŷn (75+) gydag ychydig yn fwy o bobl yn symud allan o Gaerffili nag i mewn, ond mae llifoedd mudo cyffredinol ar gyfer y grwpiau oedran hyn yn llai nag ar gyfer y boblogaeth oed gweithio.



Figure 14: ***Mudo mewnol net cyfartalog yn ôl grŵp oedran rhwng 2012 a 2020***
Ffynhonnell: SYG - Mudo mewnol: fesul awdurdod lleol a grŵp oedran pum mlynedd

6.20 Mae mudo rhyngwladol net hefyd wedi bod yn amrywiol. Bu lefel sylweddol o allfudo o drigolion rhyngwladol allan o Gaerffili yn hanner cyntaf y 2000au. Fodd bynnag, bu mudo rhyngwladol net cadarnhaol o 2005, a chredwyd ei fod yn cyd-daro â 10 gwlad o Ddwyrain Ewrop yn ymuno â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mai 2004. Yn sgil y dirwasgiad yn 2008 a'r blynyddoedd dilynol symudodd mwy o ymfudwyr rhyngwladol allan o Gaerffili nag i mewn, ond ers 2013 mae mudo net rhyngwladol wedi bod yn gadarnhaol.

Blwyddyn	Mewnol net	Rhyngwladol net	Mudo net
2001 i 2002	623	-58	565
2002 i 2003	106	-85	21
2003 i 2004	302	-100	202
2004 i 2005	-4	-212	-216
2005 i 2006	109	7	116
2006 i 2007	331	11	342
2007 i 2008	303	27	330
2008 i 2009	-105	-35	-140
2009 i 2010	-69	-125	-194
2010 i 2011	-345	-70	-415
2011 i 2012	-98	-54	-152
2012 i 2013	-92	33	-59
2013 i 2014	238	55	293
2014 i 2015	-29	52	23
2015 i 2016	-146	86	-60
2016 i 2017	235	19	254
2017 i 2018	67	3	70
2018 i 2019	72	13	85
2019 i 2020	867	20	887
Cyfartaledd 19 mlynedd	124	-22	103
Cyfartaledd 10 mlynedd	77	16	93
Cyfartaledd 5 mlynedd	219	28	247

Table 8: ***Mudo net 2001/2 i 2019/20***
Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn

6.21 Mae gwybodaeth am darddiad mudwyr rhyngwladol ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau gan ddefnyddio cofrestriadau yswiriant gwladol. Mae Ffigur 15 yn dangos cyfanswm y mudwyr rhyngwladol sydd wedi symud i Fwrdeistref Sirol Caerffili ac y dyrannwyd rhif yswiriant gwladol iddynt dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae'r ffigurau'n adlewyrchu mewnfudo yn unig, ac nid ydynt yn ystyried unrhyw allfudo o Gaerffili i ardaloedd eraill ar ôl i rif yswiriant gwladol gael ei ddyrannu.

6.22 Nodir bod y gyfran uchaf o ymfudwyr rhyngwladol wedi dod o wledydd yr UE2 - Bwlgaria a Rwmania. Fodd bynnag, bu nifer sylweddol o gofrestriadau yswiriant gwladol hefyd gan fudwyr a oedd yn wreiddiol o'r UE15 (y gwledydd a oedd yn aelod-wladwriaethau cyn esgyniad yr UE8 yn 2004). Mae nifer yr ymfudwyr o rannau eraill o'r byd wedi bod yn gymharol fychan.



Figure 15: ***Cofrestriadau Yswiriant Gwladol – ymfudwyr rhyngwladol sy'n byw yng Nghaerffili – y flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2016 i'r flwyddyn yn diweddu Rhagfyr 2020***
Ffynhonnell: Dyraniadau rhif Yswiriant Gwladol i ddinasyddion tramor sy'n oedolion sy'n dod i mewn i'r DU, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

6.23 Bydd penderfyniadau polisi yn dylanwadu'n drwm ar ffigurau mudo rhyngwladol y dyfodol. Bu gostyngiad yn nifer yr ymfudwyr o'r UE sy'n cofrestru ar gyfer yswiriant gwladol ers canlyniadau refferendwm Brexit ym mis Mehefin 2016. Mae'n anochel y bydd gan ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2021 oblygiadau ar gyfer mudo rhyngwladol i'r DU yn y dyfodol, ond nid yw goblygiadau llawn hyn yn hysbys ar hyn o bryd.

6.24 At hynny, yn ddiamau, bydd goblygiadau pandemig COVID-19 ar fudo o'r DU ac yn rhyngwladol, gan fod y seilwaith bellach yn ei le fel y gellir cyflawni llawer o swyddi o bell, sy'n golygu bod pobl yn llai cysylltiedig â lleoliad penodol ar gyfer gwaith. Ni fydd effeithiau llawn Brexit a phandemig COVID-19 yn gwbl hysbys am beth amser ac felly mae angen gwneud tybiaethau gwybodus ynghylch mudo o ystod o ffynonellau.

Aelwydydd

6.25 Mae Maint Cyfartalog Aelwydydd (MCA) yn elfen allweddol o'r amcanestyniadau aelwydydd. Mae Ffigur 16 yn nodi'r newid ym maint cyfartalog aelwydydd ers 1991. Nodir bod MCA wedi gostwng o 2.64 ym 1991 i 2.43 yn 2001 – gostyngiad cyffredinol o 0.21 o bobl fesul aelwyd mewn 10 mlynedd. Roedd cyfradd y gostyngiad rhwng 2001 a 2011 yn arafach nag a brofwyd yn y cyfnod blaenorol gyda gostyngiad o ddim ond 0.04 o bobl fesul aelwyd, sy'n sylweddol is nag a brofwyd yn y 10 mlynedd flaenorol. Rhwng 2011 a 2019 bu gostyngiad o 0.05 person fesul aelwyd.



Figure 16: ***Newid ym maint cyfartalog aelwydydd rhwng 1991 a 2019***
Ffynhonnell: StatsCymru

6.26 Nodir bod MCA Caerffili yn uwch na chyfartaledd Cymru. Yn 2019, roedd gan Gaerffili un o'r MCA uchaf yng Nghymru, yn ail yn unig i Ferthyr Tudful. Mae nifer o resymau posibl pam nad yw MCA wedi gostwng mor gyflym yn y 10 mlynedd diwethaf ag yng nghyfnod y Cyfrifiad blaenorol. Mae fforddiadwyedd yn ffactor allweddol gan fod prisiau tai wedi cynyddu'n sylweddol ers 2001 ac mae llawer o blant nad ydynt yn ddibynnol yn parhau i fyw gyda rhieni gan na allant fforddio symud i'w llety eu hunain. Archwilir rhesymau eraill yn fanylach yn yr adran nesaf ar aelwydydd cudd.

Aelwydydd cudd

6.27 Mae gwybodaeth ar gael o Gyfrifiad 2011 ar nifer yr aelwydydd cudd ym mhob ardal awdurdod lleol. Mae'r SYG yn datgan *"teulu cudd yw un sy'n byw ar aelwyd aml-deulu yn ogystal â'r prif deulu, fel cwpl ifanc sy'n byw gyda rhieni".*

6.28 Fel y dangosir yn Nhabl 10, roedd y Cyfrifiad diwethaf yn dangos bod 760 o deuluoedd cudd yng Nghaerffili. O'r rhain, mae 55.4% yn rhieni unigol naill ai gyda phlant dibynnol neu annibynnol, mae 34.2% yn gyplau heb blant ac mae'r 10.4% sy'n weddill yn gyplau â phlant (dibynnol a heb fod yn ddibynnol).

6.29 Yn gyffredinol, mae hyn yn cyfateb i 1.4% o'r holl deuluoedd sy'n guddiedig, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 1.5%. Mae'r ganran hon yn ymwneud â nifer yr aelwydydd cudd fel canran o'r holl aelwydydd a ddosberthir fel teulu, h.y. mwy nag un person yn byw gyda'i gilydd fel uned deuluol ac felly nid yw'n cynnwys unrhyw aelwydydd cudd person sengl, a all hefyd gynrychioli aelwydydd newydd yn y dyfodol. Mae hefyd yn ddefnyddiol ystyried nifer y teuluoedd cudd fel canran o'r holl aelwydydd, yn hytrach nag fel canran o deuluoedd. Felly, cyfrifir bod 1.0% o'r holl aelwydydd yn cynnwys teulu cudd.

Statws teuluol cudd	Rhif
Pob categori: Pob teulu	**53,845**
Teulu cudd: Cyfanswm	**760**
Teulu cudd: Teulu un rhiant: Cyfanswm	421
Teulu cudd: Teulu un rhiant: Plant dibynnol	377
Teulu cudd: Teulu un rhiant: Pob plentyn heb fod yn ddibynnol	44
Teulu cudd: Teulu cwpl: Cyfanswm	339
Teulu cudd: Teulu cwpl: Dim plant	260
Teulu cudd: Teulu cwpl: Plant dibynnol	55
Teulu cudd: Teulu cwpl: Pob plentyn yn ddibynnol	24
Teulu nad yw'n gudd: Cyfanswm	53,085
Teulu nad yw'n gudd: Dim plant	20,122
Teulu nad yw'n gudd: Plant dibynnol	23,030
Teulu nad yw'n gudd: Pob plentyn heb fod yn ddibynnol	9,933
% y teuluoedd cudd	**1.4**
Cyfanswm aelwydydd cyfrifiad 2011	**74,469**
% yr aelwydydd sy'n cynnwys teulu cudd	**1.0**

Table 9: ***Statws teuluol cudd***
Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 SYG (Tabl LC1110EW - Statws teulu cudd)

6.30 Nid yw'r Cyfrifiad yn darparu ffigur ar gyfer nifer y bobl sengl sy'n byw mewn aelwyd gudd y byddai'n well ganddynt symud allan, ond mae AMTLI CBS Caerffili yn ffynhonnell ddata bwysig ar gyfer nifer a dewisiadau a ffefrir y rhai sy'n byw mewn aelwydydd cudd. Cafodd canfyddiadau arolwg tai lleol eu cynnwys fel rhan o AMTLI 2018, lle cafwyd ymatebion gan 3% o holl aelwydydd y Fwrdeistref Sirol. O'r sampl hwn, dywedodd 14% o'r ymatebwyr fod un neu fwy o bobl ar eu haelwyd yn debygol o symud i'w llety eu hunain fel cartref annibynnol o fewn y 5 mlynedd nesaf. Roedd llawer o'r aelwydydd newydd posibl hyn yn oedolion sengl heb blant (70.8%) yn edrych i symud i'w llety eu hunain ac ni fyddent yn cael eu dosbarthu fel teulu cudd at ddibenion y cyfrifiad. Fodd bynnag, roedd 6.4% yn deuluoedd un rhiant, 18.9% yn gyplau heb blant a 3.2% yn gyplau â phlant. Yn gyffredinol, roedd 28.5% o'r aelwydydd hynny a oedd yn debygol o symud yn ystod y 5 mlynedd nesaf yn dod o dan y diffiniad o 'aelwyd gudd' ar adeg yr arolwg.

6.31 Er bod yr arolwg AMTLI hwn yn cynrychioli sampl bychan yn unig o gartrefi yn y Fwrdeistref Sirol, mae'n cadarnhau awydd gan nifer o bobl sy'n byw mewn teuluoedd cudd i symud. Roedd bron i ddwy ran o dair o'r aelwydydd a oedd yn ffurfio o'r newydd a oedd yn disgwyl symud yn ystod y 5 mlynedd nesaf yn disgwyl aros o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili. Os gall yr aelwydydd cudd hyn ddiwallu eu hanghenion o fewn y farchnad dai, efallai mai'r canlyniad yw bod maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau.

6.32 I lawer o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, mae'n arferol i sawl cenhedlaeth o'r un teulu ddewis byw gyda'i gilydd ar yr un aelwyd. Mewn ardaloedd â phoblogaethau lleiafrifoedd ethnig uchel fel Caerdydd, gall hyn fod yn ffactor wrth egluro maint cyfartalog mawr aelwydydd. Fodd bynnag, yng Nghaerffili, nododd Cyfrifiad 2011 mai dim ond 1.6% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol oedd o grŵp ethnig lleiafrifol heblaw 'gwyn' felly ni fydd hyn yn ffactor arwyddocaol wrth egluro'r cynnydd mewn aelwydydd cudd a maint cyfartalog aelwydydd.

6.33 Dylid cydnabod, gan fod maint cyfartalog aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol, na fydd yn adlewyrchu dylanwad posibl cynlluniau polisi presennol ac yn y dyfodol ar lefel leol a chenedlaethol ar ffurfiant aelwydydd.

6.34 Mae cynlluniau polisi a allai ddylanwadu ar ffurf aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn cynnwys:

- Argaeledd cynlluniau sydd â'r nod o helpu prynwyr tro cyntaf i brynu cartref fel Cymorth i Brynu Cymru (ar Gam 3 ar hyn o bryd) a Rhanberchnogaeth – Cymru. Gall cynlluniau fel y rhain gynorthwyo rhai pobl sy'n byw ar aelwyd gudd i brynu eu heiddo eu hunain, gan arwain at gynnydd ym maint aelwydydd llai.
7.62 Mae'r boblogaeth oed gweithio hefyd yn mynd i ostwng 3,900 (o'i gymharu â 2,900 yn senario A), a fydd â goblygiadau sylweddol i weithgarwch economaidd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd twf bach yn y boblogaeth o ddynion a menywod ynghanol eu 40au, ond bydd llawer llai o bobl yn y grwpiau oedran eraill, yn enwedig o ran menywod.

7.63 Bydd y twf mwyaf arwyddocaol yn y boblogaeth 66+ oed, a fydd yn tyfu bron i 6,700 erbyn 2035. Rhagamcenir llai o bobl yn y grŵp oedran hwn o'i gymharu â'r Prif Amcanestyniad, gan y rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn is yn y senario poblogaeth isel yma.



Figure 26: ***Cymharu rhagolwg poblogaeth Caerffili ar gyfer 2020 â 2035 (Amcanestyniad Poblogaeth Isel LIC 2018)***

Casgliadau Senario C

7.64 Mae'r senario Amrywiad Poblogaeth Isel yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng 1.8% erbyn 2035, o ganlyniad i enedigaethau is, disgwyliad oes is a chyfraddau mudo is. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth oed ysgol a'r boblogaeth oed gweithio, a chynnydd yn y boblogaeth hŷn. Nid yw hwn yn strwythur poblogaeth cynaliadwy, gan nad yw'n ddymunol cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth, yn enwedig gan fod Caerffili wedi'i nodi fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.

7.65 Mae'r newid a ragwelir yn ffurf a mathau aelwydydd yn golygu y byddai'r senario hon yn cynhyrchu gofyniad tai bychan o 43 o anheddau, neu 73 o anheddau yn y senario wedi'i addasu i aelodaeth. Mae hyn yn sylweddol is na chyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol a gallai gael ei gynnwys gan ymrwymiadau tai presennol heb fod angen dyrannu unrhyw dir ychwanegol ar gyfer tai.

SENARIO D – Dim Mudo Net

- Gostyngiad yn y boblogaeth o 2,789 o bobl - colled o 186 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (gostyngiad o 1.5%)
- Poblogaeth yn 2035 o 178,950 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 515 (cynnydd o 0.7%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **534** (**36 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudiad net o 0 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn gostwng 6,413
- Cyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu, cyfanswm gofyniad anheddau o **917 (61 annedd y flwyddyn)**

7.66 Yn y senario Dim Mudo Net, rhagdybir y bydd y boblogaeth yn newid o ganlyniad i newid naturiol yn unig ac na fydd unrhyw fudo net (h.y. bydd yr un nifer o bobl yn symud allan o Gaerffili ag a fydd yn symud i mewn).

7.67 Mae'r senario yn defnyddio'r tybiaethau ffrwythlondeb a marwolaethau o'r Prif Ragamcanion ac felly mae newid naturiol yn negyddol. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng 2,789 o bobl neu 1.5%. Rhagwelir y bydd y rhagdybiaeth ar gyfer newid naturiol yn gostwng yn fwy sylweddol nag yn Senario A, gan fod y Prif Amcanestyniadau yn rhagdybio y bydd mudo net i Gaerffili, a byddai'r mudo hwn yn cynnwys teuluoedd a menywod o oedran cael plant.

7.68 Fel yn achos Senario C, er y rhagwelir y bydd y boblogaeth yn gostwng, pan fydd yr amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu cymhwyso i'r boblogaeth hon, byddai cynnydd o 0.7% mewn aelwydydd o hyd, gan fod y tueddiadau'n dangos y bydd cynnydd o hyd yn y rhan fwyaf o grwpiau oedran fod yn gynnydd mewn aelwydydd pobl lai, sy'n golygu y bydd hyd yn oed poblogaeth sy'n lleihau angen mwy o dai i gefnogi'r preswylwyr presennol Byddai hyn yn cyfateb i ofyniad anheddau o 36 uned y flwyddyn, neu 61 annedd y flwyddyn yn y senario gyda chyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu ar gyfer 19 -29 oed.



Figure 27: ***Cydrannau newid – Dim Mudo Net***

Strwythur y boblogaeth

7.69 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.70 Byddai'r senario hon yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth iau (gostyngiad o bron i 3,500) a'r boblogaeth oed gweithio (gostyngiad o 6,400), ynghyd â chynnydd o 7,100 yn nifer y bobl hŷn (67+) erbyn 2035. Yn yr un modd â senarios eraill a fyddai'n arwain at leihad yn y boblogaeth, canlyniad yr amcanestyniad hwn o'r newidiadau demograffig yw na fyddai strwythur poblogaeth cytbwys.



Figure 28: ***Cymharu poblogaeth Caerffili 2020 â 2035 (Dim Mudo Net)***

Casgliadau Senario D

7.71 Mae'r senario Dim Mudo Net yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng 1.5% erbyn 2035 gan na fydd unrhyw fudo net i wrthbwyso'r gostyngiad yn y boblogaeth o ganlyniad i lai o ffrwythlondeb a disgwyliad oes uwch. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth oed ysgol a'r boblogaeth oed gweithio, a chynnydd yn y boblogaeth hŷn. Fel yn achos y senario blaenorol, nid yw'n strwythur poblogaeth yn un cynaliadwy, gan nad yw'n ddymunol cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth, yn enwedig gan fod Caerffili wedi'i nodi fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.

7.72 Mae'r newid a ragwelir yn ffurfiant a mathau o aelwydydd yn golygu y byddai'r senario hon yn cynhyrchu gofyniad tai bychan o 36 annedd, neu 61 o anheddau yn y senario wedi'i addasu i aelodaeth. Mae hyn yn sylweddol is na chyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol a gallai gael ei gynnwys gan ymrwymiadau tai presennol heb fod angen dyrannu unrhyw dir ychwanegol ar gyfer tai.

SENARIO E – Ymfudo Cyfartalog Hirdymor (19 Mlynedd)

- Gostyngiad yn y boblogaeth o 1,002 o bobl - colled o 67 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (gostyngiad o 0.6%)
- Poblogaeth yn 2035 o 178,737 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 1,356 (cynnydd o 1.8%)
- Cyfanswm y gofyniad anheddau o **1,403** (**94 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 104 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn gostwng 5,380
- Cyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu, cyfanswm gofyniad anheddau o **1,756 (117 annedd y flwyddyn)**

7.73 Mae'r senario hon yn defnyddio'r tybiaethau ynghylch ffrwythlondeb a marwolaethau o'r Prif Amcanestyniadau (Senario A) ond mae'n rhagdybio y bydd mudo yn adlewyrchu'r tueddiadau hirdymor ar gyfer y 19 mlynedd diwethaf – o Gyfrifiad 2001 ymlaen.

7.74 Fel yr eglurwyd yn flaenorol yn y papur hwn, yn dilyn cyhoeddi Cyfrifiad 2011, adolygwyd yr amcangyfrifon canol blwyddyn ar gyfer 2001 i 2010, a arweiniodd at nodi ffigurau 'newid na ellir ei briodoli'. Rhagwelir mai tanamcangyfrif y boblogaeth yn 2001 oedd yn gyfrifol am y 'newid na ellir ei briodoli', a ffigurau mudo anghywir ar gyfer y blynyddoedd hyn, ond gan na ellir mesur hyn, nid ydym wedi cynnwys newid na ellir ei briodoli yn y ffigurau.

7.75 Mae ffigur mudo cyson wedi'i gymhwyso ar draws cyfnod yr amcanestyniad, sy'n cyfateb i ffigur mudo mewnol net o 125 a ffigur mudo rhyngwladol net o -21. Mae hyn yn cyfateb i fudo net cyffredinol o 104 o bobl y flwyddyn.

7.76 Yn gyffredinol, mae hyn yn arwain at ostyngiad bychan yn y boblogaeth o 1,000 o bobl erbyn 2035, gan nad yw lefel y mudo yn gwrthbwyso colli poblogaeth o newid naturiol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

7.77 Er gwaethaf amcanestyniad o ostyngiad yn y boblogaeth, byddai'r tueddiadau amcanestyniadau aelwydydd yn golygu y byddai cynnydd o 1.8% mewn aelwydydd, a fyddai'n cyfateb i ofyniad anheddau o 94 annedd y flwyddyn, neu 117 o anheddau yn y senario addasu cyfradd aelodaeth aelwydydd.



Figure 29: ***Cydrannau newid – Mudo Hirdymor (19 Mlynedd)***

Strwythur y boblogaeth

7.78 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.79 Er nad yw mor eithafol â'r hyn a geir mewn senarios eraill, byddai'r senario mudo cyfartalog hirdymor dros 19 mlynedd yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth iau (gostyngiad o dros 2,900) a'r boblogaeth oed gweithio (gostyngiad o 5,400), ynghyd â chynnydd o 7,300 yn nifer y bobl hŷn (67+) erbyn 2035. Fel gyda senarios eraill a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y boblogaeth, canlyniad yr amcanestyniad hwn o newidiadau demograffig yw na fyddai strwythur poblogaeth cytbwys.



Figure 30: ***Cymharu poblogaeth Caerffili 2020 â 2035 (Mudo Cyfartalog Hirdymor - 19 mlynedd)***

Casgliadau Senario E

7.80 Mae'r senario Mudo Cyfartalog Hirdymor (19 Mlynedd) yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng 0.6% erbyn 2035 gan fod y lefel isel o fudo yn annigonol i wneud iawn am y gostyngiad yn y boblogaeth o ganlyniad i lai o ffrwythlondeb a disgwyliad oes uwch. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth oed ysgol a'r boblogaeth oed gweithio, a chynnydd yn y boblogaeth hŷn. Yn yr un modd â senarios tebyg eraill, nid yw hwn yn strwythur poblogaeth cynaliadwy, gan nad yw'n ddymunol cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth, yn enwedig gan fod Caerffili wedi'i nodi fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.

7.81 Mae'r newid a ragwelir yn ffurf a mathau aelwydydd yn golygu y byddai'r senario hon yn cynhyrchu gofyniad tai bychan o 94 annedd, neu 117 o anheddau yn y senario wedi'i addasu i aelodaeth. Mae hyn yn sylweddol is na chyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol a gallai gael ei gynnwys yn bennaf gan ymrwymiadau tai presennol heb fod angen dyrannu unrhyw dir ychwanegol sylweddol ar gyfer tai.

SENARIO F – Mudo Cyfartalog Hirdymor (10 Mlynedd)

- Gostyngiad yn y boblogaeth o 1,137 o bobl - colled o 76 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (gostyngiad o 0.6%)
- Poblogaeth yn 2035 o 180,602 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 1,199 (cynnydd o 1.7%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **1,344** (**90 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 93 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn gostwng 5,443
- Cyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu, cyfanswm yr angen am anheddau o **1,696 (113 o anheddau'r flwyddyn)**

7.82 Mae'r senario hon yn defnyddio'r tybiaethau ynghylch ffrwythlondeb a marwolaethau o'r Prif Amcanestyniadau (Senario A) ond mae'n cymryd yn ganiataol y bydd mudo yn adlewyrchu'r tueddiadau hirdymor ar gyfer y 10 mlynedd diwethaf.

7.83 Mae ffigur mudo cyson wedi'i gymhwyso ar draws cyfnod yr amcanestyniad, sy'n cyfateb i ffigur mudo mewnol net o 77 a ffigur mudo rhyngwladol net o 16. Mae hyn gyfystyr â mudo net cyffredinol o 93 o bobl y flwyddyn.

7.84 Yn gyffredinol, mae hyn yn arwain at ostyngiad bach yn y boblogaeth o 1,137 o bobl erbyn 2035, gan nad yw lefel y mudo yn gwrthbwyso colled y boblogaeth o newid naturiol (mwy o farwolaethau na genedigaethau).

7.85 Er gwaethaf amcanestyniad o ostyngiad yn y boblogaeth, byddai'r tueddiadau o ran amcanestyniadau aelwydydd yn golygu y byddai cynnydd o 1.8% mewn aelwydydd, a fyddai'n cyfateb i ofyniad am anheddau o 90 annedd y flwyddyn, neu 113 o anheddau yn y senario addasu'r gyfradd aelodaeth aelwydydd.



Figure 31: ***Cydrannau newid – Mudo Hirdymor (10 Mlynedd)***

Strwythur y boblogaeth

7.86 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.87 Er nad yw mor eithafol â'r hyn a geir mewn senarios eraill, byddai'r senario mudo cyfartalog hirdymor dros 19 mlynedd yn arwain at ddirywiad sylweddol yn y boblogaeth iau (gostyngiad o bron i 3,000) a'r boblogaeth oed gweithio (gostyngiad o dros 5,400), ynghyd â chynnydd o 7,300 yn nifer y bobl hŷn (67+) erbyn 2035. Fel gyda senarios eraill a fyddai'n arwain at ostyngiad yn y boblogaeth, canlyniad yr amcanestyniad hwn o newidiadau demograffig yw na fyddai strwythur poblogaeth cytbwys.



Figure 32: ***Cymharu poblogaeth Caerffili 2020 â 2035 (Mudo Cyfartaledd Hirdymor (10 Mlynedd)***

Casgliadau Senario F

7.88 Mae'r senario Ymfudo Cyfartalog Hirdymor (10 Mlynedd) yn debyg iawn i'r senario 19 Mlynedd, er y rhagwelir y bydd y mathau o ymfudwyr yn wahanol, gyda llai o fudo mewnol net a mwy o fudo rhyngwladol net. Mae hyn hefyd yn nodi y bydd y boblogaeth yn gostwng 0.6% erbyn 2035 gan fod y lefel isel o fudo yn annigonol i wneud iawn am y gostyngiad yn y boblogaeth o ganlyniad i lai o ffrwythlondeb a marwolaethau uwch. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth oed ysgol a'r boblogaeth oed gweithio, a chynnydd yn y boblogaeth hŷn. Yn yr un modd â senarios tebyg eraill, nid yw hwn yn strwythur poblogaeth cynaliadwy, gan nad yw'n ddymunol cynllunio ar gyfer gostyngiad yn y boblogaeth, yn enwedig gan fod Caerffili wedi'i nodi fel Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.

7.89 Mae'r newid a ragwelir yn ffurf a mathau aelwydydd yn golygu y byddai'r senario hon yn cynhyrchu gofyniad tai bach o 9 0 annedd, neu 113 o anheddau yn y senario wedi'i addasu i aelodaeth. Mae hyn yn sylweddol is na chyfraddau cwblhau tai yn y gorffennol a gallai gael ei gynnwys yn bennaf gan ymrwymiadau tai presennol heb fod angen dyrannu unrhyw dir ychwanegol sylweddol ar gyfer tai.

SENARIO G – Ymfudo Cyfartalog De-ddwyrain Cymru

- Cynnydd yn y boblogaeth o 5,212 o bobl - 347 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (cynnydd o 2.9%)
- Poblogaeth yn 2035 o 186,951 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 3,844 (cynnydd o 5.0%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **3,983** (**266 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 525 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn gostwng 756
- Cyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu, cyfanswm gofyniad anheddau o **4,348 (290 annedd y flwyddyn)**

7.90 Mae'r Senario hwn yn rhagdybio y bydd ffrwythlondeb a marwolaethau yn unol â'r Prif Amcanestyniadau ond y bydd y gyfradd ymfudo yn adlewyrchu'r mudo cyfartalog ar gyfer rhanbarth De-ddwyrain Cymru am y 10 mlynedd flaenorol. Mae hyn yn deillio o'r mewnfudo ac allfudo mewnol a rhyngwladol 10 mlynedd ar gyfartaledd gan ddefnyddio data o'r amcangyfrif canol blwyddyn ar gyfer pob awdurdod lleol yn y rhanbarth. Yna mae cyfartaledd y ffigurau cyfun ar gyfer 10 awdurdod De-ddwyrain Cymru wedi'i gyfrifo. Nodir y ffigurau yn Nhabl 17 isod.

	Mewn i'r Du	**Allan o'r DU**	**Y DU net**	**INOV**	**OUTOV**	**Tramor net**	**Net**
Pen-y-bont ar Ogwr	4,435	3,675	760	298	189	109	869
Bro Morgannwg	5,240	4,538	702	323	212	111	812.
Rhondda Cynon Taf	6,869	6,754	115	814	337	477	593
Merthyr Tudful	1,532	1,534	-2	164	85	78	76
Caerffili	4,723	4,646	77	155	139	16	93
Blaenau Gwent	1,826	1,796	31	98	62	36	67
Torfaen	2,717	2,394	323	94	74	21	344
Sir Fynwy	4,541	4,005	536	210	165	45	581
Casnewydd	5,849	5,530	318	972	631	341	660
Caerdydd	20,764	21,486	-722	5,450	3,573	1,877	1,156
Cyfanswm De-ddwyrain Cymru	**58,495**	**56,357**	**2,138**	**8,578**	**5,466**	**3,112**	**5,250**
Cyfartaledd De-ddwyrain Cymru	**5,850**	**5,636**	**214**	**858**	**547**	**311**	**525**

Table 16: ***Mudo Cyfartalog De-ddwyrain Cymru (10 mlynedd)***
Ffynhonnell: Amcangyfrifon Canol Blwyddyn

7.91 Roedd mudo cyfartalog De-ddwyrain Cymru yn senario a brofwyd fel rhan o sail tystiolaeth y CDLl mabwysiedig ac roedd yn opsiwn 'twf uchel'.

7.92 Os caiff y mudo cyfartalog ar gyfer Caerffili ei gymharu â chyfartaledd De-ddwyrain Cymru, nodir bod mudo net cyfartalog y DU ar gyfer y rhanbarth yn uwch nag y mae ar gyfer Caerffili (214 o'i gymharu â 77). Fodd bynnag, nid yw'n lefel a ystyrir yn afrealistig, gan fod mudo mewnol net wedi bod yn fwy na 214 mewn sawl achos dros yr 20 mlynedd diwethaf, fel y dangosir yn Adran 6. Fodd bynnag, mae'r mudo rhyngwladol net cyfartalog yn

sylweddol uwch nag a brofwyd yng Nghaerffili yn y 10 mlynedd diwethaf, wedi'i ysgogi gan fudo mawr i Gaerdydd gan ymfudwyr rhyngwladol.

7.93 O dan y senario hon, byddai twf poblogaeth o 5,212 erbyn 2035, sy'n cyfateb i gynnydd o 2.9%. Yn gyffredinol, byddai mudo net yn 525 y flwyddyn, a fyddai'n cynrychioli cynnydd ar dueddiadau diweddar y gorffennol yn gyffredinol ond nid yw'n lefel a ystyrir yn afrealistig. Y gwahaniaeth allweddol yn y senario hon yw y byddai'r newid yn cael ei ysgogi gan fudo rhyngwladol yn ogystal â mudo mewnol. Oherwydd y tybiaethau demograffig o ran ffrwythlondeb a marwolaethau, bydd newid naturiol negyddol yn parhau o bron i 2,700 yn fwy o farwolaethau na genedigaethau dros gyfnod yr amcanestyniad.



Figure 33: ***Cydrannau newid – Mudo Cyfartalog De-ddwyrain Cymru***

7.94 Pan fydd yr amcanestyniadau aelwydydd yn cael eu cymhwyso i'r boblogaeth hon, byddai hyn yn arwain at gynnydd o 5% yn nifer yr aelwydydd ac yn creu gofyniad am bron i 4,000 o anheddau newydd, neu 266 o anheddau'r flwyddyn. Pan gymhwysir yr addasiadau i'r cyfraddau aelodaeth aelwyddydd, byddai hyn yn cynyddu'r gofyniad am anheddau i 290 uned y flwyddyn.

Strwythur y boblogaeth

7.95 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.96 O dan y senario hon, bydd gostyngiad o 1,800 o blant erbyn 2035. Fodd bynnag, byddai'r boblogaeth oed gweithio yn parhau i fod yn weddol gytbwys, gyda gostyngiad o ychydig dros 750 o bobl erbyn 2035.

7.97 Fel ym mhob senario, bydd cynnydd yn y boblogaeth hŷn – yn yr achos hwn, cynnydd o 7,800 o bobl ychwanegol 67+ erbyn 2035.



Figure 34: ***Cymhariaeth o boblogaeth Caerffili yn 2020 â 2035 ar gyfartaledd mudo i dde-ddwyrain Cymru***

Casgliadau Senario G

7.98 Mae senario mudo Cyfartalog De-ddwyrain Cymru yn rhagweld twf cadarnhaol yn y boblogaeth (2.9%) dros y 15 mlynedd nesaf. Mae'r twf yn y boblogaeth yn gyfan gwbl oherwydd mudo. Byddai'r senario hon yn arwain at ostyngiad yn y grŵp oedran 0-15 a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth hŷn (67+). Fodd bynnag, byddai'r boblogaeth oed gweithio yn profi gostyngiad bach o 750 o bobl. Mae'r aelwydydd canlyniadol sy'n seiliedig ar yr amcanestyniad poblogaeth hwn yn cynrychioli lefel twf o 5%. Mae hyn yn cyfateb i ofyniad tai o 266 o anheddau'r flwyddyn, neu 290 yn y senario addasu cyfraddau aelodaeth, sy'n is na chyfraddau adeiladu tai hirdymor, ond yn debyg i gyfraddau adeiladu dros y 5 mlynedd diwethaf. Er ei bod yn uchelgeisiol byddai modd cyflawni'r lefel yma o dwf.

SENARIO H – Parhau â'r CDLl mabwysiedig

- Cynnydd yn y boblogaeth o 16,004 o bobl - 1,067 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (cynnydd o 8.8%)
- Poblogaeth yn 2035 o 197,735 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 8,323 (cynnydd o 10.8%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **8,625** (**575 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 1,317 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn cynyddu 8,434 neu 7,668 gyda chyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu
- Cyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu, mae cyfanswm yr angen am anheddau yn parhau ar 8,625 ond bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn gostwng i 15,058 (8.3%) neu 1,004 y flwyddyn

7.99 Mae Senario H yn amcanestyniad seiliedig ar anheddau, sy'n rhagdybio y bydd nifer yr anheddau yn cael eu pennu ar y ffigur gofyniad anheddau cyfartalog sydd wedi'i gynnwys yn y CDLl mabwysiedig - ffigur o 8,625 o anheddau dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd, neu 575 y flwyddyn. Mae'n bwysig nodi bod y senario hon yn defnyddio'r ffigur anheddau o'r CDLl mabwysiedig yn unig. Nid yw'n defnyddio unrhyw dybiaethau blaenorol ar gyfer ffrwythlondeb, marwoldeb neu fudo gan fod y tybiaethau yn y CDLl mabwysiedig wedi'u paratoi'n wreiddiol ar ddechrau cyfnod y cynllun (2006/7) ac ers hynny bu newid demograffig sylweddol wrth i gyfraddau genedigaethau ddisgyn ac uwch. Mae cyfraddau marwolaethau bellach yn golygu y rhagwelir y bydd newid naturiol yn arwain at ostyngiad yn y boblogaeth, yn hytrach na bod yn brif yrrwr ar gyfer twf poblogaeth.

7.100 Mae'r senario'n rhagdybio y bydd ffrwythlondeb a marwolaethau yn adlewyrchu tueddiadau'r gorffennol, yn unol â'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018, gan yr ystyrir bod y ffigurau hyn yn rhesymol. Bydd y boblogaeth ychwanegol sydd ei hangen i gwrdd â'r ffigur o 575 annedd y flwyddyn yn cael ei gyflawni trwy fudo, yn hytrach na newid naturiol, gyda thybiaeth y bydd llai o bobl yn symud allan o'r Fwrdeistref Sirol a mwy o bobl yn symud i mewn. Tybir y bydd mudo net yn fewnol yn bennaf (preswylwyr y DU) ac y bydd y cyfraddau mudo rhyngwladol yn aros yn gyson ar lefel amcanestyniadau sail 2018 o +43 o fewnfudwyr rhyngwladol net y flwyddyn.

7.101 O dan y senario hon, byddai'r boblogaeth yn cynyddu 16,000, sy'n cyfateb i 1,067 o bobl ychwanegol y flwyddyn – cynnydd o 8.8% yn y boblogaeth. Fel yn yr holl senarios a brofwyd, bydd newid naturiol negyddol (mwy o farwolaethau na genedigaethau), felly byddai'r twf yn y boblogaeth yn gyfan gwbl oherwydd mudo – cynnydd net mewn 1,317 o bobl y flwyddyn. Byddai hyn yn cynrychioli cynnydd mewn mudo sydd dros 12 gwaith y lefel a brofwyd mewn tueddiadau hirdymor yn y gorffennol.

7.102 Byddai nifer yr aelwydydd o dan y senario hon yn cynyddu 10.8% i 88,657 erbyn 2035.

7.103 Yn yr addasiad senario ar gyfer cyfraddau aelodaeth 19-29, mae'r cyfraddau aelwydydd ac anheddau yn parhau'n sefydlog. Fodd bynnag, gan fod y cyfraddau aelodaeth ar gyfer pobl ifanc 19-29 oed yn cael eu cadw ar lefelau 2020, bydd yn golygu erbyn 2035 na fydd unrhyw gynnydd yn y grŵp oedran hwn sy'n byw mewn aelwydydd mwy na gostyngiad yn y niferoedd sy'n byw ar aelwydydd llai. O'u cymharu â'r prif amcanestyniadau seiliedig ar 2018, bydd hyn yn golygu cyfran uwch o bobl mewn aelwydydd llai. Byddai'r boblogaeth sydd ei hangen i lenwi'r aelwydydd llai hyn yn is, gan y bydd llai o bobl fesul cartref. O ganlyniad, mae cyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth yn is o dan yr addasiad hwn (8.3% yn hytrach nag 8.8%) ac mae'r mudo net sydd ei angen i gwrdd â'r ffigur hwn hefyd yn is (1,209 y flwyddyn o'i gymharu â 1,317).



Figure 35: ***Cydrannau newid – Parhad o'r CDLI mabwysiedig***

Strwythur y boblogaeth

7.104 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.105 O ganlyniad i'r mewnfudo sylweddol o dan y senario hon, bydd cynnydd yn y boblogaeth gwrywod a benywod ym mron pob grŵp oedran rhwng 18 a 50, a fydd yn helpu i gefnogi gweithgarwch economaidd yn y Fwrdeistref Sirol. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd cynnydd o bron i 9,000 yn fwy o bobl o oed gweithio erbyn 2035, neu 8,200 yn y senario wedi'i haddasu i'r gyfradd aelodaeth.

7.106 Rhagwelir y bydd y boblogaeth 0-15 oed yn gostwng 1,200, sef yr isaf o unrhyw un o'r senarios. Er y rhagwelir y bydd y gyfradd ffrwythlondeb yn parhau ar dueddiadau isel y gorffennol, bydd mewnfudo i Gaerffili o deuluoedd a menywod o oedran cael plant yn helpu i wrthbwyso'r gostyngiad hwn, felly, tra bydd llai o blant ar draws pob grŵp oedran ac eithrio plant dan 2 oed, ni fydd hyn mor arwyddocaol ag mewn senarios eraill.

7.107 Yn ogystal â chynnydd yn y boblogaeth oed gweithio, bydd cynnydd sylweddol hefyd yn y boblogaeth hŷn (67+), a rhagwelir y bydd yn cynyddu 8,800 yn 2035, neu 8,700 yn y senario wedi'i addasu i gyfradd aelodaeth. Fel y dangosir yn Adran 6 (Ffigur 14), mae'r llifau mudo ar gyfer y grŵp oedran hŷn yn is nag ar gyfer grwpiau oedran eraill felly bydd cynnydd mewn mudo yn effeithio'n fwy arwyddocaol ar grwpiau oedran iau. O ganlyniad, disgwylir i nifer y bobl hŷn a ragwelir gynyddu, ond dim ond 1,300 yn fwy o bobl hŷn nag a ragwelwyd yn Senario A, sef y prif amcanestyniad.



Figure 36: ***Cymharu poblogaeth Caerffili 2020 â 2035 (Parhad o'r CDLI Mabwysiedig)***

Casgliadau Senario H

7.108 Mae Senario H yn rhagweld cynnydd yn y boblogaeth o 8.8%, neu 8.3% yn y senario wedi'i addasu ar gyfer aelodaeth. Mae hyn yn uwch na'r twf yn y boblogaeth a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf a byddai angen lefel mudo sy'n sylweddol uwch na'r hyn a brofwyd o gymharu â thueddiadau hirdymor. Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn yn gwrthdroi'r gostyngiad a ragwelir yn y boblogaeth oed gweithio trwy ddarparu poblogaeth economaidd weithgar gryfach i gefnogi twf swyddi yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd cynnydd yn y boblogaeth hŷn uwchlaw'r hyn y mae'r prif amcanestyniadau'n ei ddangos, ond oherwydd proffil mudwyr, ni fyddai twf y grŵp hwn o'i gymharu â'r prif amcanestyniadau mor sylweddol ag ar gyfer y boblogaeth oed gweithio, gan helpu i cefnogi poblogaeth fwy cytbwys. Byddai hefyd yn lleihau'r graddau y rhagwelir y bydd y boblogaeth oed ysgol yn lleihau.

7.109 O ran adeiladu tai, er mai 575 o anheddau yw'r gofyniad tai blynyddol yn y CDLI mabwysiedig, nid yw'r lefel hon o adeiladu tai wedi'i bodloni ers 2008 ac un o gasgliadau cyson Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol yw nad yw'r gofynion tai yn y CDLI wedi'u bodloni. Gan fod y cyflenwad tai yn y gorffennol wedi bod yn is na 575 y flwyddyn, byddai angen dangos y byddai modd cyflawni'r ffigur o 575 yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

SENARIO I – Cyfraddau Adeiladu Tai Tymor Hir

- Cynnydd yn y boblogaeth o 8,884 o bobl - 592 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (cynnydd o 4.9%)
- Poblogaeth yn 2035 o 190,615 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 5,399 (cynnydd o 7.0%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **5,595** (**373 o anheddau'r flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 781 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn cynyddu 2,668, neu 1,944 gyda chyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu
- Cyfraddau aelodaeth aelwydydd wedi'u haddasu, mae cyfanswm yr angen am anheddau yn parhau ar 5,595 ond bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn gostwng i 7,990 (4.4%) neu 533 y flwyddyn

7.110 Fel yr eglurir yn Adran 6, mae nifer y tai a gwblhawyd yn y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn amrywiol, gan eu bod yn naturiol gysylltiedig ag amodau economaidd. Mae nifer cyfartalog y tai a gwblhawyd yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar yr amserlenni a ddefnyddir. Mae'n bwysig ystyried cyfnod hwy o amser, gan y bydd hyn yn cynnwys cylch economaidd llawn gyda'r ddau gyfnod o berfformiad economaidd cryf (twf tai) a pherfformiad gwannach hefyd (dirwasgiadau). Mae nifer y tai a gwblhawyd mewn graddfeydd amser blaenorol fel a ganlyn:

- Cyfartaledd 5 mlynedd – 270 o anheddau
- Cyfartaledd 10 mlynedd – 304 o anheddau
- Cyfartaledd 15 mlynedd – 373 o anheddau
- Cyfartaledd 20 mlynedd – 389 o anheddau

7.111 Mae Senario I yn senario a arweinir gan anheddau, sy'n rhagdybio y bydd nifer yr anheddau'n sefydlog ar gyfartaledd 15 mlynedd o 373 y flwyddyn, gan fod 15 mlynedd yn adlewyrchu cyfnod y cynllun. Mae'r cyfartaledd 15 mlynedd yn debyg iawn i'r cyfartaledd 20 mlynedd o 389 o anheddau.

7.112 Mae'r senario'n rhagdybio y bydd ffrwythlondeb a marwolaethau yn adlewyrchu tueddiadau'r gorffennol, yn unol â'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018, gan yr ystyrir bod y ffigurau hyn yn rhesymol. Bydd y boblogaeth ychwanegol sydd ei hangen i gwrdd â'r ffigur o 373 o anheddau yn cael ei chyflawni drwy fudo net, yn hytrach na newid naturiol, gan gadw'r boblogaeth bresennol a allai fod wedi symud allan fel arall ac annog pobl newydd i symud i mewn. Rhagdybir y bydd mudo net yn bennaf yn fewnol (preswylwyr y DU) ac y bydd y cyfraddau mudo rhyngwladol yn aros yn gyson ar lefel amcanestyniadau sail 2018 o +43 o fudwyr rhyngwladol net y flwyddyn.

7.113 Byddai'r boblogaeth yn cynyddu o dan y senario hon ar gyfartaledd o 592 o bobl y flwyddyn, neu 8,884, a fyddai'n cyfateb i newid o ychydig llai na 5% dros gyfnod yr amcanestyniad. Byddai aelwydydd hefyd yn cynyddu 7% dros gyfnod y cynllun.

7.114 Yn yr addasiad senario ar gyfer cyfraddau aelodaeth 19-29, mae'r cyfraddau aelwydydd ac anheddau yn parhau'n sefydlog. Fodd bynnag, gan fod y cyfraddau aelodaeth ar gyfer pobl ifanc 19-29 oed yn cael eu cadw ar lefelau 2020, bydd yn golygu erbyn 2035 na fydd unrhyw gynnydd yn y grŵp oedran hwn sy'n byw mewn aelwydydd mwy, na gostyngiad yn y niferoedd sy'n byw ar aelwydydd llai. O'u cymharu â'r prif amcanestyniadau seiliedig ar 2018, bydd hyn yn golygu cyfran uwch o bobl mewn aelwydydd llai. Byddai'r boblogaeth

sydd ei hangen i lenwi'r aelwydydd llai hyn yn is, gan y bydd llai o bobl fesul cartref. O ganlyniad, mae cyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth yn is o dan yr addasiad hwn (4.4% yn hytrach na 4.9%) ac mae'r mudo net sydd ei angen i gwrdd â'r ffigur hwn hefyd yn is (719 y flwyddyn o'i gymharu â 781).



Figure 37: ***Cydrannau newid – Cyfraddau Adeiladu Tai Tymor Hir***

Strwythur y boblogaeth

7.115 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.116 Rhagwelir y bydd y boblogaeth 0-15 oed yn gostwng 1,900, er y rhagwelir y bydd mwy o fabanod yn 2035 o'i gymharu â 2020. Gallai hyn fod oherwydd y niferoedd geni isel yn 2019 a 2020 o'i gymharu â thueddiadau hirdymor.

7.117 Disgwylir i'r boblogaeth oed gweithio (16-66) gynyddu 2,700, a fydd yn helpu i gefnogi twf economaidd yn y Fwrdeistref Sirol ac yn gwrthbwyso'r twf sylweddol yn y boblogaeth hŷn (67+), y rhagwelir y bydd yn cynyddu 8,100.

7.118 Pan gymhwysir yr addasiad cyfradd aelodaeth aelwydydd aelwydydd, bydd y cynnydd yn y boblogaeth oed gweithio yn llai, ond bydd cynnydd o hyd o 1,950 o bobl economaidd weithgar ychwanegol, a fydd yn helpu twf economaidd.



Figure 38: ***Cymhariaeth o boblogaeth Caerffili yn 2020 â 2035 (cyfraddau adeiladu tai cyfartalog hirdymor***

Casgliadau Senario I

7.119 Mae'r senario adeiladu tai hirdymor yn amlwg yn adlewyrchu lefel realistig o adeiladu tai, o ystyried mai dyna sydd wedi'i gyflawni dros gyfnod hir, er ei fod yn uchelgeisiol o'i gymharu â thueddiadau tymor byrrach. Yn gyffredinol, byddai'r senario hon a arweinir gan anheddau yn arwain at gynnydd cadarnhaol yn y boblogaeth (4.9% neu 4.4% yn y senario wedi'i addasu fesul Cyfradd Mudo) a ystyrir yn uchelgeisiol ond yn gyflawnadwy. Bydd yn helpu i gyflawni strwythur poblogaeth lle gall y boblogaeth economaidd weithgar dyfu a helpu i gefnogi darparu swyddi newydd. Fodd bynnag, cwestiynir a yw'r lefel hon o dwf yn ddigon uchelgeisiol i adlewyrchu safle Caerffili o fewn Ardal Dwf Genedlaethol, a dyheadau economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

SENARIO J –Twf Poblogaeth Oed gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

- Cynnydd yn y boblogaeth o 11,598 o bobl - 773 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd (cynnydd o 6.4%)
- Poblogaeth yn 2035 o 193,329 o bobl
- Cynnydd aelwydydd o 6,513 (cynnydd o 8.4%)
- Cyfanswm yr angen am anheddau o **6,750** (**450 annedd y flwyddyn)**
- Mewnfudo net o 969 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-66) yn cynyddu 4,866 neu 4,126 gyda chyfraddau aelodaeth wedi'u haddasu
- Cyfraddau aelodaeth aelwydydd wedi'u haddasu, mae cyfanswm yr angen am anheddau yn parhau ar 5,595 ond bydd y cynnydd yn y boblogaeth yn gostwng i 10,685 (5.9%) neu 712 y flwyddyn

7.120 Mae Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (PRC) yn nodi'r targed uchelgeisiol o greu 25,000 o swyddi. Mae'r senario hon sy'n cael ei arwain gan anheddau yn ceisio cefnogi nodau twf rhanbarthol PRC trwy osod y gofyniad am anheddau ar lefel a fyddai'n arwain at dwf yn y boblogaeth oed gweithio ar lefel a fyddai'n cefnogi nodau creu swyddi PRC.

7.121 Byddai gofyniad tai o 450 o anheddau'r flwyddyn yn gofyn am gynnydd ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol o 6.4%, neu 773 o bobl y flwyddyn. O ran y boblogaeth weithio, byddai hyn yn golygu twf yn y boblogaeth oed gweithio o 4.2%, sydd ar lefel a fyddai'n cefnogi uchelgeisiau twf y Fargen Ddinesig i sicrhau bod gan Gaerffili boblogaeth oed gweithio ar gael i lenwi'r swyddi hyn.

7.122 Mae'r ffigur o 450 o anheddau yn agos at gynrychioli pwynt canol rhwng ffigur cyfraddau adeiladu'r gorffennol o 373 o anheddau'r flwyddyn a ffigur y CDLl mabwysiedig o 575 – lefel a ystyrir yn uchelgeisiol o'i hystyried yn erbyn cyfraddau cyflawni'r gorffennol ond sy'n dal yn gyraeddadwy yn realistig.

7.123 Yn yr addasiad senario ar gyfer cyfraddau aelodaeth aelwydydd 19-29 oed, mae'r cyfraddau aelwydydd ac anheddau yn parhau'n sefydlog. Fodd bynnag, gan fod y cyfraddau aelodaeth ar gyfer pobl ifanc 19-29 oed yn cael eu cadw ar lefelau 2020, bydd yn golygu erbyn 2035 na fydd unrhyw gynnydd yn y grŵp oedran hwn sy'n byw mewn aelwydydd mwy na gostyngiad yn y niferoedd sy'n byw ar aelwydydd llai. O'u cymharu â'r prif amcanestyniadau seiliedig ar 2018, bydd hyn yn golygu cyfran uwch o bobl mewn aelwydydd llai. Byddai'r boblogaeth sydd ei hangen i lenwi'r aelwydydd llai hyn yn is, gan y bydd llai o bobl fesul cartref. O ganlyniad, mae cyfanswm y cynnydd yn y boblogaeth yn is o dan yr addasiad hwn (5.9% yn hytrach na 6.4%) ac mae'r mudo net sydd ei angen i gwrdd â'r ffigur hwn hefyd yn is (906 y flwyddyn o'i gymharu â 969). Yn y senario hon, byddai'r boblogaeth oed gweithio yn cynyddu 3.5%, sy'n dal i fod ar lefel a fyddai'n cefnogi uchelgeisiau rhanbarthol.

7.124 Mae'r senario'n rhagdybio y bydd ffrwythlondeb a marwolaethau yn adlewyrchu tueddiadau'r gorffennol, yn unol â'r amcanestyniadau seiliedig ar 2018, gan yr ystyrir bod y ffigurau hyn yn rhesymol. Bydd y boblogaeth ychwanegol sydd ei hangen i gwrdd â'r ffigur o 450 annedd yn cael ei gyflawni trwy fudo, yn hytrach na newid naturiol, gyda thybiaeth y bydd llai o bobl yn symud allan o'r Fwrdeistref Sirol a mwy o bobl yn symud i mewn. Tybir mai mudo mewnol net (gan drigolion y DU) fydd hyn yn bennaf ac y bydd y cyfraddau mudo rhyngwladol yn aros yn gyson ar y lefel amcanestyniadiadau seiliedig ar 2018 o +43 o fewnfudwyr rhyngwladol net y flwyddyn.



Figure 39: ***Cydrannau newid –Twf Poblogaeth Oed Gweithio PRC***

Strwythur y boblogaeth

7.125 Mae'r pyramid strwythur poblogaeth isod yn darparu cymhariaeth rhwng strwythurau poblogaeth 2020 a 2035. Mae'r ardaloedd glas yn grwpiau oedran y rhagwelir y byddant yn cynyddu erbyn 2035 o'u cymharu â'r hyn y maent ar hyn o bryd, a'r ardaloedd coch yw'r rhai y disgwylir i nifer y bobl yn y grŵp oedran yma leihau erbyn 2035.

7.126 Rhagwelir y bydd y boblogaeth 0-15 oed yn gostwng 1,660, er y rhagwelir y bydd mwy o fabanod yn 2035 o'i gymharu â 2020. Gallai hyn fod oherwydd y niferoedd geni isel yn 2019 a 2020 o'i gymharu â thueddiadau hirdymor.

7.127 Disgwylir i'r boblogaeth oed gweithio (16-66) gynyddu 4,900, a fydd yn helpu i gefnogi twf economaidd yn y Fwrdeistref Sirol ac yn gwrthbwyso'r twf sylweddol yn y boblogaeth hŷn (67+), y rhagwelir y bydd yn cynyddu 8,400.

7.128 Pan gymhwysir yr addasiad cyfradd aelodaeth aelwydydd, bydd y cynnydd yn y boblogaeth oed gweithio yn llai, ond bydd cynnydd o hyd o 4,100 o bobl a allai fod yn economaidd weithgar, a fydd yn helpu twf economaidd.



Figure 40: ***Cymharu poblogaeth Caerffili 2020 â 2035 (Twf poblogaeth oed gweithio PRC)***

Senario J Casgliadau

7.129 Byddai lefel y twf a gynigir yn senario Twf Poblogaeth Oed Gweithio PRC yn cefnogi dyheadau twf rhanbarthol gan y bydd gweithlu priodol ar gael i gefnogi creu swyddi yn y rhanbarth yn y dyfodol. Byddai'r senario yn gofyn am gynnydd mewn mudo i lefel sy'n uwch na thueddiadau hirdymor ond a ystyrir yn gyraeddadwy. Mae'r gofyniad anheddau o 450 o anheddau'r flwyddyn yn uwch na thueddiadau hirdymor y gorffennol ond mae ar lefel sy'n uchelgeisiol ond y gellir ei chyflawni.

SENARIO K – Senario Rhagolwg Cyflogaeth Oxford Economics

- Gostyngiad yn y boblogaeth o 8,805 o bobl – gostyngiad cyfartalog o 587 o bobl y flwyddyn (gostyngiad o 4.8%)
- Poblogaeth yn 2035 o 172,926 o bobl
- Gostyngiad aelwydydd o 2,031 (gostyngiad o 2.6%)
- Cyfanswm y gofyniad anheddau o **0 annedd**
- Mewnfudo net o -349 y flwyddyn
- Rhagamcenir y bydd y boblogaeth oed gweithio (16-64) yn gostwng 11,231
- Colli 1,355 o swyddi (gostyngiad o 2%)

7.130 Fel rhan o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC) a baratowyd i gefnogi'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd, comisiynwyd Oxford Economics i baratoi rhagolygon economaidd ar gyfer cyfnod y cynllun. Mae'r model rhagweld yn ystyried:

- Rhagolygon cenedlaethol/rhanbarthol – mae'r holl fodelau rhagweld rydym yn eu gweithredu yn gwbl gyson â'r rhagolygon byd-eang a chenedlaethol ehangach sy'n cael eu diweddaru'n fisol.
- Tueddiadau hanesyddol mewn ardal (sy'n ymhlyg yn y ffactorau ochr-gyflenwi sy'n effeithio ar y galw), a ychwanegwyd lle bo'n briodol gan wybodaeth a dealltwriaeth leol o batrymau datblygu economaidd sydd wedi cronni dros ddegawdau o arbenigedd, a
- Perthnasoedd economaidd sylfaenol sy'n cydgysylltu gwahanol elfennau'r rhagolygon.

7.131 Mae Senario K yn adlewyrchu'r rhagolwg galw am lafur sydd wedi'i gynnwys yn yr ATC. Mae hwn yn un o dri dull y mae rhagolygon y gofyniad tir ATC wedi'u cymryd i ystyriaeth, yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Cynllunio Cymru 'Adeiladu Sail Dystiolaeth Datblygu Economaidd i Gefnogi Cynllun Datblygu Lleol'.

7.132 Mae'r ATC yn nodi, o dan y rhagolwg hwn, dros y cyfnod 2020-2035, y rhagwelir y bydd Caerffili yn colli 1,355 o swyddi, sef gostyngiad o 2.0 y cant, o 66,579 yn 2020 i 65,224 yn 2035. Rhagamcenir bod y gostyngiad mewn cyflogaeth yn rhagolwg Oxford Economics yn cael ei ysgogi'n gryf gan golli swyddi yn y sector gweithgynhyrchu, a rhagwelir y bydd 3,452 o swyddi'n llai erbyn 2035. Caiff hyn ei wrthbwyso i ryw raddau gan dwf cyflogaeth net mewn sectorau gan gynnwys gweinyddu a chymorth busnes, adeiladu a phroffesiynol, gwyddonol a thechnegol, ond mae gostyngiad o hyd mewn swyddi, poblogaeth, y boblogaeth oed gweithio, ac aelwydydd o dan y senario hon, gydag allfudo net o 349 o bobl y flwyddyn. O ganlyniad, ni fyddai unrhyw ofyniad am dai newydd o dan y senario hon os edrychir ar ymchwil Oxford Economics ar ei ben ei hun.

7.133 Fel yr eglurwyd yn fanwl yn yr ATC a'r Papur Cefndir Cyflogaeth, o ran defnydd tir, mae rhagolygon Oxford Economics wedi'u defnyddio i ragweld arwynebedd llawr a gofynion tir cyflogaeth, gan ystyried pa sectorau diwydiant sy'n debygol o gymryd tir cyflogaeth a chymhwyso dwysedd cyflogaeth priodol, trosi niferoedd cyflogaeth yn arwynebedd llawr ac yna arwynebedd llawr i alw am dir cyflogaeth. Gan ddefnyddio'r model hwn, ni fyddai unrhyw angen am dir cyflogaeth yn ystod cyfnod y cynllun ac o bosibl mi fyddai yno gyfleoedd i drosi rhywfaint o dir diwydiannol ar gyfer defnyddiau eraill.

7.134 Gan fod y rhagolwg wedi'i baratoi gan Oxford Economics yn hytrach na Popgroup, nid yw'n bosibl ailadrodd elfennau newid yn y boblogaeth, na'r pyramidiau strwythur oedran fel rhan o'r senario hon.

Senario K Casgliadau

7.135 Nid yw ystyried Rhagolygon Cyflogaeth Oxford Economics fel sail i senario yn realistig nac yn ddymunol gan y byddai'n arwain at ddirywiad sylweddol ym mhoblogaeth gyffredinol y Fwrdeistref Sirol, a'r boblogaeth oed gweithio. Mae'r rhagolygon hyn yn cynrychioli senario 'heb ymyrraeth polisi' yn seiliedig ar yr hyn a all ddigwydd yn seiliedig ar ragolygon a thueddiadau hanesyddol, tra mewn gwirionedd mae'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd yn cynrychioli dull 'gydag ymyrraeth polisi' a fydd yn ceisio mynd i'r afael â'r newidiadau demograffig a strwythurol sylfaenol a nodir yn y rhagolygon hyn drwy'r dyrannu safleoedd cyflogaeth a thai priodol i annog mewnfudo a chyfleoedd gwaith.

7.136 Mae'r rhagolygon hyn yn rhan o'r sail tystiolaeth ehangach ar gyfer cyflogaeth, ond mae'r ATC yn ystyried ystod o ddulliau o ragweld fel yr argymhellir yng Nghanllawiau Ymarfer Cymru wrth bennu lefel twf cyflogaeth.

8. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

8.1 Cynhaliwyd cyfres o seminarau gyda swyddogion mewnol CBSC, rhanddeiliaid allweddol, aelodau etholedig a chynghorau cymuned a Fforwm Ieuenctid y Cyngor ym mis Medi 2021 i drafod lefel y twf y dylai'r Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd ei gynnwys.

8.2 Rhoddwyd cyflwyniad i gyfranogwyr gyda chyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau ar y materion canlynol yn ymwneud â lefel y twf:

- Cyd-destun polisi – Cymru'r Dyfodol a PRC a safle Caerffili o fewn Ardal Dwf Genedlaethol.
- Ystyriaethau ar gyfer pennu gofynion tai – gan gynnwys yr amcanestyniadau, yr AMTLl, y Cynllun Llesiant, aliniad swyddi a chartrefi, ystyriaethau'r Gymraeg a ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.
- Pwyntiau cadarnhaol a negyddol twf.
- Tueddiadau demograffig.
- Cyfraddau adeiladu tai yn y gorffennol a chyflenwad presennol.
- Senarios poblogaeth a thai.

8.3 Fel rhan o'r seminar, cyflwynwyd y senarios poblogaeth a thai a gafodd eu profi i gyfranogwyr. Cyflwynwyd goblygiadau pob senario poblogaeth o ran oed gweithio, oed ysgol a phoblogaeth pobl hŷn ynghyd ag ystyriaeth o'r cyfraniad y gallai'r opsiwn ei wneud i ddarparu tai fforddiadwy a sut roedd pob un yn cyd-fynd â chyd-destun tueddiadau adeiladu tai hirdymor a chyflenwad tir.

8.4 Er mwyn cynorthwyo'r trafodaethau, cafodd y rhestr hirfaith o senarios ei chyfyngu i restr fer o 4 senario. Roedd yr opsiynau ar y rhestr fer yn cynnwys Prif Amcanestyniad LIC, gan y dylai hynny fod yn rhan sylfaenol o'r sail tystiolaeth, ynghyd â'r tri opsiwn a oedd yn hyrwyddo lefel o adeiladu tai a fyddai'n cyd-fynd â dynodiad Bwrdeistref Sirol Caerffili o fewn yr ardal dwf genedlaethol.

- A – Prif Amcanestyniad seiliedig ar 2018 LIC (198 uned y flwyddyn)
- I – Cyfraddau adeiladu tai hirdymor (373 uned y flwyddyn)
- J – Twf poblogaeth oed gweithio PRC (450 uned y flwyddyn)
- H – Parhad o'r CDLl mabwysiedig (575 uned y flwyddyn)

8.5 Ar ddiwedd y seminar, gofynnwyd i randdeiliaid gwblhau arolwg yn nodi pa rai o'r opsiynau yr oeddent yn eu hystyried oedd fwyaf priodol ar gyfer yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Os nad oedd ymatebwyr yn cefnogi unrhyw un o'r pedair senario ar y rhestr fer, roedd cyfle ar gael iddynt nodi pa senarios eraill yr oeddent yn eu hystyried yn briodol. Mae Ffigur 41, isod, yn nodi'r allbwn yn y bleidlais. Mynegodd dros hanner yr ymatebwyr (51%) gefnogaeth i Senario J Twf Poblogaeth Oed Gweithio PRC fel y senario a ffefrir, gyda 29% yn cefnogi Senario I Cyfraddau Adeiladu Tai Hirdymor, 16% yn cefnogi Prif Amcanestyniad LIC a 4% yn cefnogi parhad o'r CDLl mabwysiedig.



Figure 41: ***Dewisiadau Rhanddeiliaid ar gyfer Senarios Twf***

8.6 Yn seiliedig ar drafodaethau yn y seminarau a'r dadansoddiad demograffig a geir yn y Papur Sail Tystiolaeth, gellir nodi nifer o fanteision ac anfanteision ar gyfer pob un o'r amcanestyniadau, a nodir isod. Mae copi llawn o'r nodiadau o'r Seminarau Lefelau Twf i'w weld yn y Papur Cefndir ar Gyfranogiad Cyn-Adneuo.

Amcanestyniad seiliedig ar 2018 LIC

Newid Poblogaeth (Addasiad Cyfradd Mudo) 2020-2035	1,881
Newid yn y boblogaeth oed gweithio	-2,868
Cyfanswm y gofyniad am anheddau	2,996
Gofyniad anheddau blynyddol	198

Manteision

- Mae'r amcanestyniad yn rhagdybio lefel is o fewnfudo nag opsiynau eraill, a fydd yn debycach i dueddiadau'r gorffennol.
- Gan y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at y lefel isaf o adeiladu tai, ystyrir mai dyma fyddai'n cael yr effaith gyffredinol leiaf o ran newid yn yr hinsawdd.
- Ystyrir bod modd cyflawni'r lefel o adeiladu tai gan fod cyfraddau adeiladu tai blynyddol wedi bod yn uwch na'r ffigur hwn yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, hyd yn oed ar adegau o ddirwasgiad.

Anfanteision

- Byddai'r gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithio, ynghyd â chynnydd yn y boblogaeth hŷn, yn cael effaith ar ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol. Gall dirywiad yn y gweithlu lleol arwain at gynnydd mewn cymudo i mewn i'r Fwrdeistref Sirol, neu fusnesau'n adleoli i ardaloedd eraill.

- Byddai'r amcanestyniad yn arwain at ostyngiad sylweddol yn y boblogaeth oed ysgol. Gallai hyn fod â goblygiadau i gynaliadwyedd ysgolion lleol.
- Byddai'r cyflenwad tir presennol, gan gynnwys safleoedd â chaniatâd cynllunio a thybiaethau ar gyfer safleoedd bach a safleoedd ar hap, yn fwy na chyfanswm y gofyniad am anheddau. Felly ni fyddai angen dyrannu unrhyw safleoedd tai ychwanegol dros gyfnod y cynllun.
- Mae'r gofyniad anheddau blynyddol o dan y senario hon yn is na lefel yr adeiladu tai a nodwyd gan dueddiadau'r gorffennol. Ni fyddai amcanestyniad sy'n hyrwyddo dirywiad mewn adeiladu tai o'i gymharu â'r hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol yn cyd-fynd â Chymru'r Dyfodol, sy'n dynodi Caerffili fel rhan o ardal dwf genedlaethol ac ni fyddai'n cefnogi dyheadau twf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.
- Byddai'r gofyniad anheddau isel yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn yr AMTLl.
- Gan na fyddai angen dyrannu safleoedd tai, bydd hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i hyrwyddo cynlluniau adfywio neu arallgyfeirio'r stoc tai mewn ardaloedd lle mae angen tai newydd.

I Cyfraddau adeiladu tai tymor hir

Newid Poblogaeth (Addasiad Cyfradd Mudo) 2020-2035	7,990
Newid yn y boblogaeth oed gweithio	1,944
Cyfanswm y gofyniad am anheddau	5,595
Gofyniad anheddau blynyddol	373

Manteision

- Gan fod y tybiaethau'n adlewyrchu cyfraddau adeiladu'r gorffennol dros y 15 mlynedd diwethaf, sy'n cynnwys cyfnodau o ffyniant economaidd a dirwasgiad, ystyrir bod y gofyniad anheddau blynyddol yn realistig ac yn un y gellir ei gyflawni.
- Byddai'r senario hon yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth oed gweithio, a fydd yn cefnogi ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol.
- Byddai angen dyraniadau tai newydd i gyflenwi tua 1,700 o anheddau newydd, unwaith y bydd y cyflenwad presennol wedi'i ddiystyru o'r ffigurau; bydd hyn yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn yr AMTLl.

Anfanteision

- Gan fod Caerffili o fewn ardal dwf genedlaethol Cymru'r Dyfodol, efallai nad yw'r rhagdybiaeth y bydd adeiladu tai yn parhau ar gyfraddau'r gorffennol yn ddigon uchelgeisiol.
- Bydd y boblogaeth oed ysgol yn parhau i ostwng dros gyfnod y cynllun oherwydd y gostyngiad a ragwelir mewn cyfraddau geni, er nad ar y lefelau a nodir yn Senario A.
- Gan fod twf yn cael ei yrru gan fudo, byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar gynnydd mewn mudo mewnol uwchlaw'r lefelau a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

J Twf Poblogaeth Oed Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Newid Poblogaeth (Addasiad Cyfradd Mudo) 2020-2035	10,685
Newid yn y boblogaeth oed gweithio	4,126
Cyfanswm y gofyniad am anheddau	6,750
Gofyniad anheddau blynyddol	450

Manteision

- Mae lefel y twf yn uwch na chyfraddau adeiladu'r gorffennol ond mae'n dal i fod ar lefel sy'n gyraeddadwy yn seiliedig ar gwblhau cyfnod y cynllun yn y gorffennol. Ystyrir felly fod modd cyflawni'r ffigur gofyniad anheddau blynyddol.
- Ystyrir bod lefel y twf yn gyson â safle Caerffili fel ardal dwf genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol; mae'n fwy uchelgeisiol seilio twf ar gyfraddau adeiladu'r gorffennol.
- Byddai'r senario hon yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth oed gweithio o tua 3.5%, a fydd yn cefnogi ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth weithiol ar lefel a fyddai'n cefnogi dyheadau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o ran twf swyddi.
- Byddai angen dyraniadau tai newydd i gyflenwi tua 3,000 o anheddau newydd, unwaith y bydd y cyflenwad presennol wedi'i ddiystyru o'r ffigurau; bydd hyn yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn yr AMTLI.

Anfanteision

- Bydd gostyngiad yn parhau yn y boblogaeth oed ysgol dros gyfnod y cynllun, ond nid yw'r gostyngiad mor arwyddocaol ag yn Senarios A ac I.
- Gan fod twf yn cael ei yrru gan fudo, byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar gynnydd mewn mudo mewnol uwchlaw'r lefelau a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

H Parhad o'r CDLl mabwysiedig

Newid Poblogaeth (Addasiad Cyfradd Mudo) 2020-2035	15,058
Newid yn y boblogaeth oed gweithio	7,668
Cyfanswm y gofyniad am anheddau	7,095
Gofyniad anheddau blynyddol	575

Manteision

- Ystyrir bod lefel y twf yn gyson â safle Caerffili fel ardal dwf genedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol.
- Byddai angen dyraniadau tai newydd i ddarparu tua 5,000 o anheddau newydd, unwaith y bydd y cyflenwad presennol wedi'i ddiystyru o'r ffigurau; bydd hyn yn gwneud y cyfraniad mwyaf arwyddocaol tuag at ddarparu tai fforddiadwy i fynd i'r afael â'r angen a nodwyd yn yr AMTLl.
- Byddai'r senario hon yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth oed gweithio, a fydd yn cefnogi ffyniant economaidd y Fwrdeistref Sirol.

Anfanteision

- Nid yw gofyniad y CDLl o 575 o anheddau'r flwyddyn wedi'i gyflawni'n gyson yn ystod cyfnod y cynllun blaenorol, ac mae pryderon ynghylch y gallu i gyflawni'r ffigur hwn.
- Bydd y boblogaeth oed ysgol yn parhau i ostwng dros gyfnod y cynllun, ond mae'r effaith yn is nag yn y senarios eraill.
- Gan fod twf yn cael ei yrru gan fudo, byddai'r opsiwn hwn yn dibynnu ar gynnydd sylweddol mewn mudo mewnol uwchlaw'r lefelau a brofwyd yn y blynyddoedd diwethaf.

Grŵp Ffocws y CDLl

8.7 Ystyriodd Grŵp Ffocws y CDLl allbynnau'r seminarau, gan gynnwys manteision ac anfanteision pob un o'r opsiynau twf ar y rhestr fer a chytunwyd ar yr argymhelliad a ganlyn:

Bod Amcanestyniad J, Amcanestyniad Twf Poblogaeth Oed Gweithio PRC, yn cael ei ddefnyddio fel yr amcanestyniad sylfaenol ar gyfer y CDLl.

9. Cysoni Twf Poblogaeth â Chyflogaeth

9.1 Mae aliniad tai a swyddi yn bwysig wrth bennu lefel y twf. Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi'n glir "*na ddylai ACLlau ystyried rhagolygon cyflogaeth ar eu pennau eu hunain, ond yn hytrach y berthynas rhwng amcanestyniadau economaidd a demograffig/poblogaeth*." Cydnabyddir nad oes perthynas fathemategol uniongyrchol i bennu hyn, ond mae angen digon o gartrefi i gefnogi twf mewn swyddi, heb gynyddu mewn-gymudo, a digon o swyddi ar gael i gefnogi'r cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth.

9.2 Mae Senarios A i K, a gyflwynwyd yn yr adran flaenorol, yn ystyried beth fyddai lefel y twf a nodwyd o dan bob un o'r senarios yn ei olygu i boblogaeth oed gweithio'r Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, wrth geisio alinio'r boblogaeth â nifer y swyddi sydd eu hangen, rhaid hefyd ystyried tri ffactor arall: cyfraddau gweithgarwch economaidd; cymudo; a diweithdra, gan fod y rhain i gyd yn effeithio ar faint o swyddi sydd eu hangen.

Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd

9.3 Gan na fydd pawb o oed gweithio yn economaidd weithgar, mae angen cymryd i ystyriaeth y cyfraddau gweithgarwch economaidd ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth dros gyfnod y cynllun. Mae'r cymarebau ar weithgarwch economaidd yn ôl grŵp oedran yn cael eu cymryd o Gyfrifiad 2011 ac wedi'u haddasu o'r rhagolygon o Adroddiad Cynaliadwyedd Cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ar gyfer pob blwyddyn o gyfnod y cynllun, gan ddefnyddio modiwl data Popgroup Labour Force. Nodir, ar gyfer dynion a merched, y rhagwelir cynnydd yn y gymhareb gweithgarwch economaidd ar gyfer grwpiau oed hŷn erbyn 2035.



Figure 42: ***Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd 2020 o'i gymharu â 2035 Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011 a Chynaliadwyedd Cyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – modiwl data Gweithlu Popgroup***

Cymhareb Cymudo

9.4 Wrth bennu nifer y swyddi sydd eu hangen, rhaid cydnabod bod yna bobl mewn cyflogaeth sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, ond nad ydynt yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol. Y gymhareb gymudo yw nifer y trigolion cyflogedig yn yr ardal wedi'i rannu â nifer y bobl â swyddi yn yr ardal. Os yw'r gymhareb gymudo yn fwy nag un, mae mwy o bobl yn cymudo allan o'r ardal nag sy'n cymudo i mewn, mae nifer y gweithwyr preswyl yn fwy na nifer y swyddi. Mae cymhareb gymudo Caerffili yn uchel oherwydd ei hagosrwydd a chysylltiadau trafnidiaeth da i'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yng Nghaerdydd a Chasnewydd. Mae data o Gyfrifiad 2011 yn dangos bod 77,488 o drigolion Caerffili mewn cyflogaeth (h.y. y gweithlu preswyl) yn 2011 a 58,647 o swyddi yn y Fwrdeistref Sirol (cyflogaeth – yn seiliedig ar bobl). Mae hyn yn cyfateb i gymhareb gymudo o 1.32.

9.5 Fel y manylir yn Atodiad 5 o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (ATC), mae rhagolygon Oxford Economics yn cynnwys data wedi'i ddiweddaru ar sail y ffigurau diweddaraf ar gyfer y gweithlu preswyl a swyddi. Y gymhareb gymudo ar ddechrau cyfnod y cynllun yw 1.28. Mae rhagolygon Oxford Economics yn dangos y rhagwelir y bydd y gymhareb gymudo yn cynyddu'n araf i 1.31 erbyn 2035. Mae'r gymhareb hon wedi'i chynnwys yn y cyfrifiad swyddi.

Cyfradd ddiweithdra

9.6 Y trydydd ffactor yw'r gyfradd ddiweithdra fel cyfran o gyfanswm y gweithlu h.y. yr holl bobl economaidd weithgar hynny sy'n ddi-waith. Bydd yr amcanestyniad o ostyngiad mewn cyfraddau diweithdra yn golygu bod angen mwy o swyddi i ddiwallu anghenion trigolion.

9.7 Mae rhagolygon Oxford Economics yn nodi cynnydd yn y gyfradd ddiweithdra o 5.6% yn 2020 i 6.1% yn 2021. Yna rhagwelir y bydd y gyfradd yn disgyn i 4.9% yn ystod rhan ganol cyfnod y cynllun, cyn cynyddu i 5.1% yn 2035. Y gyfradd ddiweithdra gyfartalog ar gyfer cyfnod y cynllun yw 5.2%.



Figure 43: ***Rhagolwg o'r gyfradd ddiweithdra***
Ffynhonnell: Oxford Economics Gorffennaf 2021

9.8 Gan ddefnyddio'r tybiaethau hyn, mae nifer y swyddi y byddai eu hangen i fodloni pob opsiwn wedi'i nodi isod. Mae'r ffigurau hefyd yn cynnwys y profion sensitifrwydd ar gyfer yr addasiadau i'r gyfradd aelodaeth fel y manylwyd yn yr adran flaenorol. Yn y senarios a arweinir gan anheddau, gan fod nifer yr anheddau a'r aelwydydd yn sefydlog, mae parhad tybiedig o'r mathau o aelwydydd 2020 ar gyfer y grwpiau oedran 19-29 yn hytrach na chynnydd mewn aelwydydd mwy ar gyfer y grŵp oedran hwn yn golygu y byddai'r boblogaeth i gynnal yr un nifer o aelwydydd yn is. Mae hyn o ganlyniad yn golygu y byddai angen llai o swyddi.

	Senario	Newid yn y Boblogaeth 2020-2035	Newid Poblogaeth 2020-2035 Addasiad Cyfradd Mudo	Newid Swyddi 2020-2035	Newid Swyddi 2020 – 2035 Addasiad Cyfradd Mudo	Cyfartaledd Newid Swyddi y flwyddyn	Swyddi ar gyfartaledd yn newid y flwyddyn Addasiad Cyfradd Mudo
A	**Prif Amcanestyniad seiliedig ar 2018 LIC**	1,881		-180		-12	
B	**Poblogaeth Uchel seiliedig ar 2018 LIC**	5,499		464		31	
C	**Poblogaeth Isel seiliedig ar 2018 LIC**	-3,313		-852		-57	
D	**Dim Mudo Net**	-2,789		-2,336		-156	
E	**Mudo Cyfartalog Hirdymor (19 Mlynedd)**	-1,002		-1,740		-116	
D d	**Mudo Cyfartalog Hirdymor (10 Mlynedd)**	-1,137		-1,765		-118	
G	**Mudo cyfartalog de-ddwyrain Cymru**	5,212		942		63	
H	**Parhau â'r CDLI mabwysiedig**	16,004	15,058	6,404	5,954	427	397
i	**Cyfraddau adeiladu tai hirdymor**	8,884	7,990	3,021	2,596	201	173
J	**Twf poblogaeth oed gweithio PRC**	11,598	10,685	4,311	3,876	287	258
K	**Rhagolwg Cyflogaeth Oxford Economics**	-8,806		-1,355		-90	

Table 17: ***Gofynion swyddi yn gysylltiedig â senarios twf***

9.9 Mae Tabl 18 yn nodi na fyddai unrhyw angen am swyddi ychwanegol o fewn cyfnod y cynllun, o dan sawl un o'r senarios. Mae senarios A, C, D, E, F a K i gyd yn dynodi gofyniad negyddol am swyddi, yn gysylltiedig â'r gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithio yn y senarios hyn. Mae Senario B (Poblogaeth Uchel seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru) a

Senario G (mudo cyfartalog de-ddwyrain Cymru) ill dau yn dangos gofyniad swyddi sy'n gysylltiedig â thwf cyffredinol y boblogaeth a'r boblogaeth oed gweithio. Mae'r tair senario a arweinir gan anheddau (H, I a J) yn nodi gofyniad am swyddi o rhwng 201 a 427 o swyddi'r flwyddyn, neu rhwng 173 a 397 o swyddi'r flwyddyn gan ddefnyddio'r senario addasu'r gyfradd aelodaeth aelwydydd.

Adolygiad Tir Cyflogaeth

9.10 Fel rhan o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, gofynnwyd i Grŵp BE adolygu pedwar o'r senarios twf i bennu pa effaith y byddai'r cynnydd yn y boblogaeth oed gweithio yn ei chael ar ofynion swyddi. Roedd y dull hwn yn rhan o ragolwg gweithlu preswyl, yn unol â'r Canllawiau Ymarfer.

9.11 Y pedair senario a brofwyd oedd:

- Senario A: Amcanestyniadau seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru
- Senario I: Cyfraddau Adeiladu Tai Hirdymor
- Senario J: Twf Poblogaeth Oed Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Senario H: Parhad o'r CDLl Mabwysiedig

9.12 Ystyriwyd Senario A gan mai amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn eu hanfod yw'r man cychwyn ar gyfer ystyried amrywiaeth o senarios. Y tair senario arall oedd yr unig senarios a ddangosodd gynnydd yn y boblogaeth oed gweithio, sy'n angenrheidiol i gefnogi twf swyddi. Ystyriwyd senarios I, J a H gan ddefnyddio'r ffigurau a ddeilliodd o'r profion sensitifrwydd addasu cyfradd aelodaeth aelwydydd.

Senario A	2020	2035	Newid yn y Boblogaeth
0-15	33,490	30,817	-2,673
16-66	116,571	113,703	**-2,868**
67+	31,678	39,100	7,422
Cyfanswm	181,739	183,620	1,881
Senario I	**2020**	**2035**	**Newid yn y Boblogaeth**
0-15	33,489	31,475	-2,014
16-66	116,564	118,508	**1,944**
67+	31,677	39,739	8,062
Cyfanswm	181,731	189,721	7,990
Senario J	**2020**	**2035**	**Newid yn y Boblogaeth**
0-15	33,489	31,740	-1,749
16-66	116,564	120,690	**4,126**
67+	31,677	39,985	8,308
Cyfanswm	181,731	192,416	10,685
Senario H	**2020**	**2035**	**Newid yn y Boblogaeth**
0-15	33,489	32,171	-1,318
16-66	116,564	124,232	**7,668**
67+	31,677	40,386	8,709
Cyfanswm	181,731	196,789	15,058

Table 18: ***Senarios twf poblogaeth a brofwyd yn yr ATC Ffynhonnell: Adolygiad Tir Cyflogaeth, Grŵp BE 2021***

9.13 Y dull a ddefnyddiwyd yn y model oedd rhannu'r boblogaeth oed gweithio uwch/is fesul sector busnes. Gwnaed hyn drwy gymhwyso'r un rhaniad cyfrannol o sectorau â rhagolygon swyddi Oxford Economics ar gyfer diwedd Cyfnod y Cynllun yn 2035. Mae hyn yn adlewyrchu amcangyfrif gorau Grŵp BE o sut y gallai economi Caerffili edrych yn 2035. Yna gellir cymhwyso'r dull Model Dau yma i nodi'r arwynebedd llawr a'r angen am dir a gynhyrchir gan y twf neu'r dirywiad hwn yn y boblogaeth oed gweithio.

9.14 Yn y model hwn mae'r arwynebedd llawr a'r anghenion tir cyflogaeth a gynhyrchir gan y twf/gostyngiad poblogaeth oed gweithio ychwanegol yn cael eu mesur. Yn ymarferol, dim ond cyfran o'r boblogaeth oed gweithio newydd honno fydd yn economaidd weithgar/mewn cyflogaeth, a bydd rhai yn cymudo allan o'r Fwrdeistref Sirol i weithio. Fodd bynnag, mae'n flaenoriaeth polisi i'r Cyngor sicrhau bod cymaint o'r boblogaeth oed gweithio yn cael eu cyflogi â phosibl a bod cymaint o lafur yn cael ei gadw'n lleol â phosibl. Mae'r Model hwn yn dangos y gofyniad eiddo/tir uchaf a fyddai'n cael ei gynhyrchu o lefelau cyflogaeth uchel/cadw llafur uchel. Felly dylid ei drin fel yr uchafswm gofyniad.

9.15 Mae'r tir sydd ei angen i gefnogi'r pedair senario twf poblogaeth hynny'n llawn wedi'i nodi isod.

Senario A: Amcanestyniadau seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru

Byddai 2,868 *yn llai* o bobl o oed gweithio yn creu angen o:

- Swyddfeydd B1 – 743 yn llai o weithwyr ar 16 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant

  = -2.97 ha
- B2/B8 Diwydiannol – 561 yn llai o weithwyr ar 67 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant = -9.40 ha
- Cyfanswm angen net = **-12.37 ha.**

Senario I: Cyfraddau Adeiladu Tai Hirdymor

Byddai 1,944 yn fwy o bobl o oed gweithio yn creu angen o:

- Swyddfeydd B1 – 503 o weithwyr ychwanegol ar 16 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant = 2.01 ha
- B2/B8 Diwydiannol – 380 o weithwyr ychwanegol ar 67 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant 6.37 ha
- Cyfanswm angen net = **8.38 ha.**

Senario J: Twf Poblogaeth Oed Gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Byddai 4,126 yn fwy o bobl o oed gweithio yn creu angen o:

- Swyddfeydd B1 – 1,066 o weithwyr ychwanegol ar 16 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant = 4.26 ha
- B2/B8 Diwydiannol – 808 o weithwyr ychwanegol ar 67 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant 13.53 ha
- Cyfanswm angen net = **17.79 ha.**

Senario H: Parhad o'r CDLI Mabwysiedig

Byddai 7,668 yn fwy o bobl o oed gweithio yn creu angen o:

- Swyddfeydd B1 – 1,982 o weithwyr ychwanegol ar 16 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant = 7.93 ha
- B2/B8 Diwydiannol – 1,502 o weithwyr ychwanegol ar 67 metr sgwâr fesul gweithiwr a chymhareb llain o 40 y cant 25.16 ha
- Cyfanswm angen net = **33.09 ha.**

9.16 Mae'r ATC yn amodi'r asesiad, trwy nodi mai dyma'r uchafswm gofyniad tir cyflogaeth yn benodol o'r senarios twf poblogaeth hyn ac nid yw'n rhagolwg o angen a aseswyd yn wrthrychol ar gyfer holl economi Bwrdeistref Sirol Caerffili. Fodd bynnag, mae'n dangos effeithiau economaidd mwyaf yr amcanestyniad o gyfraddau twf poblogaeth oed gweithio o dan y pedair senario. Dylid nodi fel rhan o'r prawf senario hon, yn seiliedig ar ragolygon Oxford Economics, mai dim ond cyfran o'r gweithlu preswyl a fyddai'n gweithio mewn swyddi sy'n gofyn am safle Dosbarth B ac felly mae'r B1/B2/B8 wedi'i gyfrifo yn unol â hynny. Byddai nifer sylweddol o swyddi hefyd mewn sectorau y rhagwelir y byddant yn tyfu megis masnach cyfanwerthu a manwerthu, gwasanaethau llety a bwyd, iechyd, addysg, a gweinyddiaeth gyhoeddus.

9.17 Mae'r ATC yn ystyried amrywiaeth o senarios ar gyfer modelu rhagolygon tir, gan gynnwys senarios ynghylch cwblhau adeiladau yn y gorffennol a rhagweld galw am lafur yn seiliedig ar newid cyflogaeth a ragwelir ar draws sectorau a sectorau twf a ragwelir. Crynhoir hyn yn y Papur Cefndir Cyflogaeth.

9.18 Mae paragraff 5.39 o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn nodi bod yn rhaid i'r CDLl gynnwys "…asesiad eang o newid cyflogaeth disgwyliedig fesul sector a defnydd tir [a] chynnwys targedau meintiol ar gyfer defnydd cyflogaeth Dosbarth B (tir a swyddi)".

9.19 Mae'r gofynion swyddi a nodir yn Nhabl 19 yn gyfanswm gofynion swyddi ar sail strwythur y boblogaeth a ragamcenir ym mhob un o'r senarios gyda thybiaethau priodol wedi'u cynnwys ar gyfer gweithgarwch economaidd, diweithdra a ffactorau cymudo. Yn seiliedig ar y Senario a Ffefrir (J), gyda chyfraddau aelodaeth aelwydydd wedi'u haddasu, byddai angen cyfanswm o 3,876 o swyddi dros gyfnod y cynllun, sy'n cyfateb i 258 o swyddi'r flwyddyn. At ddibenion y cynllun, mae angen ystyried faint o'r swyddi hyn fyddai o fewn defnydd Dosbarth B i gyd-fynd â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. Ystyrir hyn yn y Papur Cefndir Cyflogaeth, lle mae'r dadansoddiad sector cyfrannol o Ragolygon Oxford Economics wedi'i gymhwyso ar sail nifer y swyddi a nodwyd yn Senario J. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd 1,766 o'r 3,876 o swyddi a nodwyd yn Senario J o fewn defnydd Dosbarth B gyda'r swyddi sy'n weddill yn y sectorau tu allan i dosbarth B. Ar y sail yma, mae'r Papur Cefndir Cyflogaeth yn argymell bod y cynllun yn cynnwys targed swyddi Dosbarth Defnydd B o 1,766 o swyddi dros gyfnod y cynllun neu 118 o swyddi'r flwyddyn.

10. Cymhariaeth â Chyflenwad Tir

10.1 Er mwyn asesu faint o dir fyddai angen ei ryddhau o dan bob un o'r opsiynau twf, mae angen ystyried y cyflenwad tir presennol. Mae Papur Cefndir ar wahân ar y Cyflenwad Tir ar gyfer Tai wedi'i baratoi, sy'n ystyried nifer yr unedau ar safleoedd gyda chaniatâd cynllunio yn ogystal â'r tai a gwblhawyd ym mlwyddyn gyntaf cyfnod y cynllun, unedau sy'n cael eu hadeiladu a thybiaethau ar gyfer safleoedd ar hap a safleoedd bach. Yn gyffredinol, mae **4,411 o unedau** o fewn y cyflenwad tir presennol.

10.2 Mae lwfans hyblygrwydd o 10% wedi'i gymhwyso i bob un o'r opsiynau, yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu. I gyfrifo'r dyraniadau tai y byddai eu hangen yn y cynllun, mae'r cyflenwad tir presennol wedi'i dynnu o gyfanswm yr anheddau ynghyd â lwfans hyblygrwydd.

10.3 O dan Senario A, amcanestyniad seiliedig ar 2018 Llywodraeth Cymru, mae digon o dir ar gael yn y cyflenwad tir presennol i fodloni'r gofyniad anheddau, heb orfod dyrannu unrhyw dir ychwanegol. Mae hyn hefyd yn wir gyda Senarios B, C, D, E, F, G a K, er y byddai gofyniad dyrannu newydd bychan iawn yn ofynnol yn Senarios B a G os caiff cyfraddau aelodaeth aelwydydd eu haddasu,

10.4 Yr unig senarios a fyddai angen dyraniad tir ar gyfer tai newydd yn y cynllun yw Senarios H, I a J. Byddai Senario H angen tir i gael ei ddyrannu ar gyfer tua 5,100 o anheddau, byddai Senario I yn gofyn am ddyrannu tir ar gyfer 1,700 o anheddau a byddai Senario H yn gofyn am ddyrannu tir ar gyfer tua 3,000 o anheddau.

10.5 Yn seiliedig ar ddwysedd cyfartalog o 30 annedd yr hectar, mae'r gofynion tir ar gyfer y senarios a arweinir gan anheddau yn amrywio o 58 Ha i 169 Ha.

10.6 Nid yw'n bosibl cymharu'n uniongyrchol â gofynion tir ar gyfer tai yn y CDLl mabwysiedig oherwydd y gwahaniaethau yn y tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys lwfansau hyblygrwydd a'r modd y caiff safleoedd â chaniatâd eu trin. Fodd bynnag, yn fras, dyrannodd y CDLl mabwysiedig 260 Ha o dir neu 6,673 o unedau dros gyfnod o 15 mlynedd, sy'n cyfateb i 17.3 Ha/485 o unedau'r flwyddyn felly mae'r dyraniadau tir ym mhob un o'r senarios eraill yn is na'r dyraniadau tir ar gyfer tai yn y gorffennol.

	Senario	Cyfanswm Anheddau	Cyfanswm Anheddau addaswyd ar gyfer Cyfradd Mudo	Ynghyd â lwfans hyblygrwydd o 10%.	Ynghyd â hyblygrwydd o 10% a addaswyd ar gyfer Cyfradd Mudo	Cyflenwad Tir Presennol	Angen dyraniadau tai (anheddau a 10% llai' r cyflenwad presennol	Angen dyraniadau tai (anheddau a 10% llai presennol) addaswyd ar gyfer Cyfradd Mudo
A	Prif Amcanestyniad seiliedig ar 2018 LIC	2,550	2,966	2,805	3,263	4,411	-1,606	-1,148
B	Poblogaeth Uchel seiliedig ar 2018 LIC	3,979	4,395	4,377	4,835	4,411	-34	424
C	Poblogaeth Isel seiliedig ar 2018 LIC	648	1,064	713	1,170	4,411	-3,698	-3,241
D	Dim Mudo Net	534	917	587	1,009	4,411	-3,824	-3,402
E	Mudo Cyfartalog Tymor Hir (19 Mlynedd)	1,403	1,756	1,544	1,932	4,411	-2,867	-2,479
D d	Mudo Cyfartalog Tymor Hir (10 Mlynedd)	1,344	1,696	1,479	1,866	4,411	-2,932	-2,545
G	Mudo cyfartalog de-ddwyrain Cymru	3,983	4,348	4,381	4,783	4,411	-30	372
H	Parhau â'r CDLI mabwysiedig	8,622	8,625	9,484	9,488	4,411	5,077	5,077
i	Cyfraddau adeiladu tai tymor hir	5,595	5,595	6,155	6,155	4,411	1,744	1,744
J	Twf poblogaeth oed gweithio PRC	6,750	6,750	7,425	7,425	4,411	3,014	3,014
K	Rhagolwg Cyflogaeth Oxford Economics	-1,355	-1,355	-1,490	-1,490	4,411	-1,491	-1,491

Table 19: ***Angen dyraniadau tai ym mhob senario***

11. Casgliadau

11.1 Mae'r papur sail tystiolaeth hwn yn ystyried amrywiaeth o senarios ar gyfer y boblogaeth gyfan, aelwydydd, anheddau, a'r boblogaeth oed gweithio er mwyn llywio'r gofynion tai yn yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn glir y bydd amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn rhan sylfaenol o'r sail dystiolaeth ar gyfer y cynllun, ond bod angen i awdurdodau cynllunio ystyried a yw elfennau amrywiol yr amcanestyniadau yn briodol ar gyfer eu hardal, ac os nad ydynt, ymgymryd â gwaith modelu, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, i adnabod opsiynau amgen.

11.2 Mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chynnydd sylweddol yn nifer y bobl hŷn nag oed ymddeol gwladol a ragwelir dros gyfnod y cynllun hwn. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau a chynnydd yn nifer y marwolaethau, ac am y tro cyntaf yn 2019-20, roedd nifer y marwolaethau yn uwch na nifer y genedigaethau, gan arwain at newid naturiol negyddol, a rhagwelir y bydd y duedd hon yn parhau. Tra yn y gorffennol, ysgogwyd twf yn y boblogaeth gan newid naturiol a mudo, mae mudo bellach yn brif yrrwr twf poblogaeth.

11.3 Rhoddwyd ystyriaeth i Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd diweddaraf LIC, sef amcanestyniadau seiliedig ar 2018. Mae'r amcanestyniadau hyn yn nodi lefel isel o dwf yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun, wedi'i ysgogi gan fudo. Fodd bynnag, o ran strwythur y boblogaeth, mae'r amcanestyniadau yn nodi cynnydd sylweddol mewn pobl hŷn a dirywiad yn y boblogaeth oed gweithio ac oed ysgol. Bydd hyn yn arwain at strwythur poblogaeth anghytbwys, a fydd â goblygiadau sylweddol i gynaliadwyedd ysgolion a'n gallu i gefnogi twf economaidd a darparu gwasanaethau a seilwaith.

11.4 Gan nad yw Amcanestyniadau LIC yn cael eu hystyried yn ddewis dymunol o safbwynt polisi, mae deg senario arall wedi'u profi i ystyried goblygiadau tybiaethau eraill ynghylch newid naturiol a mudo, nifer yr anheddau a swyddi.

11.5 Mae mater aelwydydd cudd yn bryder sylweddol, gyda Chaerffili â'r maint aelwydydd cyfartalog mwyaf ond un yng Nghymru. Mae amcanestyniadau seiliedig ar 2018 yn dangos y rhagwelir y bydd cyfran y bobl ifanc 19-29 oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain (aelwydydd 1 person) neu mewn aelwydydd 2 berson yn gostwng yn sylweddol, tra rhagwelir y bydd nifer y bobl 19-29 oed sy'n byw ar aelwydydd mwy o faint yn cynyddu'n sylweddol. Mae hyn yn arwydd o bobl ifanc yn methu â ffurfio eu haelwydydd eu hunain am resymau fforddiadwyedd. Mae gan lefel y tai y mae'r cynllun yn darparu ar eu cyfer y potensial i fynd i'r afael â'r tueddiadau hyn, gan y bydd darparu cyflenwad digonol o dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy ar gyfer deiliadaeth rhent cymdeithasol a chanolradd, yn cynnig cyfle i bobl ifanc a all fod yn rhan o aelwydydd cudd, i ffurfio eu haelwydydd eu hunain.

11.6 Mae senarios cyfradd addasu aelodaeth aelwydydd wedi'u profi i ystyried beth fyddai effaith mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r senario amgen yn rhagdybio y bydd y cyfraddau aelodaeth aelwydydd ar gyfer y grŵp oedran 19-29 yn aros yn gyson ar gyfraddau 2020 drwy gydol cyfnod y cynllun, yn hytrach na gostwng i lefelau nad ydynt efallai'n cael eu hystyried yn realistig nac yn ddymunol. Nid yw cyfraddau aelodaeth yr holl grwpiau oedran eraill wedi'u haddasu a rhagamcenir y byddant yn newid yn unol â'r amcanestyniadau. Canlyniad hyn yw y bydd mwy o bobl iau yn byw mewn aelwydydd llai, felly bydd maint cyfartalog cyffredinol aelwydydd yn gostwng ychydig. Gan y rhagwelir y bydd llai o bobl yn byw ym mhob cartref, bydd angen mwy o dai. Mae hyn yn golygu cynnydd bychan yn nifer yr anheddau yn y senarios a arweinir gan y boblogaeth a gostyngiad bychan yn y boblogaeth gyffredinol yn y senarios a arweinir gan anheddau, i gwrdd â'r un nifer o anheddau.

11.7 Ystyrir bod y senarios addasu aelodaeth aelwydydd yn fwy dymunol o safbwynt polisi, ac felly mae'r rhain wedi'u rhestru fel y senarios posibl a ffefrir yn y tabl isod. Mae'r senarios hefyd yn cynnwys addasiad pellach i ystyried Amcangyfrifon Canol Blwyddyn 2019 a 2020.

	Senarios (gan gynnwys addasiadau Cyfradd Mudo ac addasiadau ar gyfer yr amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf)	Newid yn y Boblogaeth 2020-2035	% Newid Poblogaeth 2020-2035	Newid Aelwydydd 2020-2035	% Newid Aelwydydd 2020-2035	Cyfanswm Anheddau	Anheddau y flwyddyn	Newid yn y boblogaeth oed gweithio
A	Prif Amcanestyniad seiliedig ar 2018 LIC	1,881	1.0	2,862	3.7	2,966	198	-2,868
B	Poblogaeth Uchel seiliedig ar 2018 LIC	5,499	3.0	4,241	5.5	4,395	293	-1,842
C	Poblogaeth Isel seiliedig ar 2018 LIC	-3,313	-1.8	1,026	1.3	1,064	71	-3,938
D	Dim Mudo Net	-2,789	-1.5	884	1.1	917	61	-6,413
E	Mudo Cyfartalog Tymor Hir (19 Mlynedd)	-1,002	-0.6	1,695	2.2	1,756	117	-5,380
D d	Mudo Cyfartalog Tymor Hir (10 Mlynedd)	-1,137	-0.6	1,636	2.1	1,696	113	-5,443
G	Mudo cyfartalog de-ddwyrain Cymru	5,212	2.9	4,195	5.4	4,348	290	-756
H	Parhau â'r CDLI mabwysiedig	15,058	8.3	8,323	10.8	8,622	575	7,668
i	Cyfraddau adeiladu tai tymor hir	7,990	4.4	5,399	7.0	5,595	373	1,944
J	Twf poblogaeth oed gweithio PRC	10,685	5.9	6,513	8.4	6,750	450	4,126
K	Senario Rhagolwg Cyflogaeth Oxford Economics	-8,805	-4.8%	-2031	-2.6%	0	0	-11,231

Table 20: ***Senarios Twf gan gynnwys addasiadau i Gyfraddau Aelodaeth a Dangosyddion Crynswth (Amcangyfrifon Canol Blwyddyn).***

11.8 Crynhoir nifer yr anheddau y byddai eu hangen o dan bob un o'r opsiynau hyn yn Ffigur 44, gan ystyried yr addasiadau i'r gyfradd aelodaeth aelwydydd. Mae nifer yr anheddau'n amrywio o ddim gofyniad yn Senario Rhagolwg Cyflogaeth Oxford Economics (heb ymyrraeth polisi), i 575 o anheddau yn y Senario sy'n parhau â gofyniad tai y CDLI mabwysiedig. Nodir y gyfradd adeiladu gyfartalog hirdymor o 373 o anheddau'r flwyddyn, gyda dau opsiwn yn cynnig lefel o dwf sy'n uwch na hynny.



Figure 44: ***Anheddau'r flwyddyn ar gyfer pob senario***

11.9 Mae nifer y swyddi y byddai eu hangen i gefnogi pob un o'r opsiynau twf hefyd wedi'i gyfrifo, gan ystyried y rhagolygon ar gyfer cyfraddau gweithgarwch economaidd, diweithdra a chymarebau cymudo. Mae'r gostyngiad yn y boblogaeth oed gweithio a ragamcenir mewn nifer o'r senarios wedi arwain at amcanestyniad colli swyddi fesul blwyddyn, yn hytrach na thwf swyddi. Dim ond 5 o'r opsiynau a fyddai'n arwain at ofyniad swyddi cadarnhaol yn amrywio o 31 o swyddi'r flwyddyn i 427 o swyddi'r flwyddyn yn y senario twf uchaf.



Figure 45: ***Swyddi y flwyddyn ar gyfer pob senario***

11.10 Mae pob un o'r senarios hefyd wedi'u hasesu mewn perthynas â'r cyflenwad tir presennol ar gyfer tai. Cafodd lwfans hyblygrwydd o 10% ei gynnwys yn y gofyniad tai a ddeilliodd o bob senario a didynnwyd y cyflenwad tir presennol o gyfanswm y gofyniad.

11.11 Dim ond 3 o'r opsiynau a brofwyd, sef y tri opsiwn a arweinir gan anheddau, a fyddai'n gofyn am ddyrannu safleoedd newydd yn y cynllun datblygu:

- I - Cyfraddau adeiladu tai tymor hir – Tir i'w ddyrannu ar gyfer 1,700 o anheddau newydd
- J – Twf poblogaeth oed gweithio PRC – Tir i'w ddyrannu ar gyfer 3,000 o anheddau newydd
- H – Parhad o'r CDLl mabwysiedig – Tir i'w ddyrannu ar gyfer 5,100 o anheddau newydd

11.12 Yn yr wyth senario arall, roedd y cyflenwad tir presennol yn uwch na'r gofyniad anheddau felly ni fyddai angen unrhyw ddyraniadau tai newydd.

11.13 Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid trwy gyfres o seminarau a oedd yn nodi proffil demograffig y Fwrdeistref Sirol a'r rhestr hir o opsiynau a brofwyd. Cyflwynwyd rhestr fer o opsiynau i randdeiliaid yn cynnwys Prif Amcanestyniad (A) LIC, ynghyd â'r tri opsiwn a arweinir gan anheddau (I, J, K), gan y byddai'r opsiynau hyn yn darparu strwythur oedran mwy cytbwys trwy gynnydd yn y boblogaeth oed gweithio a gofyniad dyrannu tir ar gyfer swyddi a thai, gan gynnwys tai fforddiadwy.

11.14 Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid o'r farn mai Senario J opsiwn twf poblogaeth oed gweithio Prifddinas-Ranbarth Caerdydd oedd yr un mwyaf priodol i lywio'r Strategaeth a Ffefrir, gan yr ystyriwyd bod lefel y twf yn adlewyrchu sefyllfa'r Fwrdeistref Sirol o fewn Ardal Dwf Genedlaethol yng Nghymru yn y Dyfodol, trwy fod yn uchelgeisiol ond gan barhau i fod yn realistig, yn ogystal â chefnogi'r lefel ranbarthol o greu swyddi a nodwyd fel rhan o'r Fargen Ddinesig.

11.15 Yn unol ag argymhelliad Grŵp Ffocws y CDLl, ystyrir bod y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei llywio gan yr opsiwn twf a ganlyn:

Senario J - Twf poblogaeth oed gweithio PRC

Newid Poblogaeth (Addasiad Cyfradd Mudo) 2020-2035	**10,685**
Newid yn y boblogaeth oed gweithio	**4,126**
Cyfanswm y gofyniad am anheddau	**6,750**
Gofyniad anheddau blynyddol	**450**

11.16 Wrth benderfynu ar ofynion tai, mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn datgan y dylid ystyried yr amcanestyniadau ochr yn ochr â thystiolaeth arall gan gynnwys:

- y cynllun llesiant ar gyfer ardal cynllun.
- tystiolaeth allweddol arall mewn perthynas â materion megis yr hyn y mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni.
- cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi.
- yr angen am dai fforddiadwy.
- ystyriaethau'r iaith Gymraeg.
- ymarferoldeb y cynllun.
- ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach mewn ardal cynllun er mwyn sicrhau creu lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynol.

11.17 Mae'r materion hyn wedi cael sylw dyledus fel rhan o'r sail tystiolaeth, ac mae crynodeb o sut yr ystyriwyd y materion hyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Atodiad 1 - Asesiad yn erbyn gofynion Polisi Cynllunio Cymru

Mae asesiad o sut yr ystyriwyd pob un o ofynion Polisi Cynllunio Cymru wrth bennu lefel y twf wedi'i grynhoi yn y Tabl isod. Mae hwn yn cyfeirio at dystiolaeth yn y papur cefndir hwn a sail tystiolaeth ehangach yr Ail Gynllun Datblygu Lleol Newydd.

Gofyniad Polisi Cynllunio Cymru	**Sut mae wedi cael ei ystyried**
Amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru	Yn unol â PCC a'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, mae asesiad wedi'i gynnal ar wahanol elfennau'r amcanestyniadau i benderfynu a ydynt yn briodol ar gyfer yr ardal. Ymgymerwyd hefyd â modelu, yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i nodi opsiynau amgen.
Asesiad Marchnad Tai Lleol a'r angen am dai fforddiadwy	Mae AMTLl 2018 wedi'i grynhoi yn Adran 2 o'r papur hwn. Mae'n nodi angen am 282 o unedau fforddiadwy y flwyddyn, gyda'r angen mwyaf yn cael ei nodi yn y Coridor Cysylltiadau Gogleddol a Basn Caerffili. Cydnabyddir y byddai cyfanswm gofyniad tai uwch yn cynyddu gallu'r awdurdod lleol i ddarparu tai fforddiadwy, trwy gytundebau Adran 106 a thrwy ddyrannu tir ar gyfer cynlluniau tai fforddiadwy. Mae hyn wedi bod yn ystyriaeth wrth bennu lefel y twf. Bydd hefyd yn ffactor wrth benderfynu ar y strategaeth ofodol ar gyfer y cynllun i sicrhau bod tir yn cael ei hyrwyddo mewn ardaloedd ag angen tai fforddiadwy. Bydd AMTLl wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu'r fethodoleg newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar baratoi AMTLl yn cael ei baratoi i gefnogi'r CDLl Adnau.
Cynllun llesiant	Mae amcanion cynllun llesiant y Cyngor wedi'u nodi yn Adran 2. Mae datblygu tai addas i ddiwallu amrywiaeth o anghenion pobl, gan gynnwys tai fforddiadwy yn un o'r materion allweddol a nodwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid ac un o'r 4 Amcan yw "Galluogi ein cymunedau i fod yn wydn ac yn gynaliadwy," y mae tai fforddiadwy a chynaliadwy yn elfen allweddol ohonynt.
Cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi	Mae Adran 9 yr adroddiad yn nodi sut mae'r gofynion swyddi wedi'u hystyried fel rhan o bob un o'r senarios twf, a sut mae hyn wedi'i alinio â chanfyddiadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth.
Ystyriaethau'r iaith Gymraeg	Nododd Cyfrifiad 2011 fod 11.2% o boblogaeth Caerffili yn siaradwyr Cymraeg. Mae adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, sy'n ymgorffori Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, yn nodi'r Gymraeg fel ystyriaeth. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried yn fanylach yng nghamau dilynol proses yr ACI. Mae strategaeth iaith Gymraeg y Cyngor yn nodi cam gweithredu i "sefydlu goblygiadau i'r Gymraeg fel rhan

	annatod o ddatblygiadau cynllunio o ran ehangu tai ac addysg, yn enwedig o ran lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.” Mae cynaliadwyedd pob ysgol yn ystyriaeth allweddol wrth benderfynu ar ofynion tai, a chynigir twf ar lefel sy’n lleihau’r gostyngiad yn y boblogaeth oed ysgol. Mewnfudo o leoedd o fewn y DU sy’n ysgogi’r twf mwyaf yn y boblogaeth, gyda chyfran sylweddol o’r mudo hyn o awdurdodau cyfagos. Nid yw sgiliau ieithyddol mewnfudwyr yn rhywbeth y gall y cynllun ddylanwadu arno ond gall annog mewnfudo o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru fod â’r potensial i gefnogi’r Gymraeg. Gallai senarios a fyddai’n arwain at lefelau isel o fewnfudo net ac allfudo uwch ymhlith pobl iau a’r rhai o oed gweithio gael effaith fwy andwyol ar gyfraddau twf o’i gymharu â senarios twf uwch.
Cyflawnadwyedd	Mae’r gallu i gyflawni pob un o’r opsiynau twf wedi’i ystyried yng nghyd-destun cyfraddau adeiladu tai yn y gorffennol ac mae hyn wedi’i gynnwys yn y sylwebaeth yn Adran 7.
Ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach	Mae’r papur cyfranogiad cyn-adneuo yn nodi ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a ystyriwyd gan randdeiliaid wrth drafod lefelau twf. Roedd hyn yn cynnwys materion fel yr angen am boblogaeth gytbwys gyda phoblogaeth oed gweithio gynyddol er mwyn annog ffyniant economaidd a chefnogi’r boblogaeth sy’n heneiddio. Mae lefel o boblogaeth a fyddai’n lleihau’r gostyngiad yn y boblogaeth oed ysgol i helpu cynaliadwyedd ysgolion hefyd yn ystyriaeth bwysig. Mae newid yn yr hinsawdd ac effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd yn ystyriaeth allweddol y mae angen ei chydbwyso yn erbyn yr angen am ddatblygiad, yn enwedig tai fforddiadwy, gyda’r broses safleoedd ymgeisiol yn sicrhau bod egwyddorion creu lleoedd yn cael eu dilyn a bod tai yn canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf cynaliadwy.